

Bil Amgylchedd y DU 2020-21

Briff Ymchwil

Medi 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6316**
E-bost: Chloe.Corbyn@Senedd.Cymru
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)
Blog: SeneddYmchwil.blog

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2020**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil Amgylchedd y DU 2020-21

Briff Ymchwil

Medi 2020

Awduron:

Chloe Corbyn

Mae'r briff ymchwil hwn wedi tynnu ar Ddadansoddiad Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin o Fil yr Amgylchedd 2019-20 gan Louise Smith, Sara Priestley a Georgina Hutton.

O 6 Mai 2020, newidiodd enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru, a chyfeirir at y sefydliad yn gyffredin fel y Senedd. O ganlyniad, mae cyfeiriadau yn y briff ymchwil hwn yn adlewyrchu'r newid enw, gan gyfeirio at y sefydliad fel y 'Cynulliad' mewn cyd-destun hanesyddol (cyn 6 Mai) a'r 'Senedd' wedi hynny.



Cynnwys

1.Trosolwg o'r Bil..... 1

1.1. Cymalau sy'n gymwys i Gymru	3
1.2. Y rhesymau dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil y DU.....	4
1.3. Pwerau cydredol plws.....	5
1.4. Goblygiadau ariannol y darpariaethau	6

2.Rhan 1 - Llywodraethu Amgylcheddol 9

2.1. Datganiad polisi ar yr egwyddorion amgylcheddol	9
2.2. Datganiadau ar gyfraith amgylcheddol	9
2.3. Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd	10
2.4. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Llywodraethu amgylcheddol	11
2.5. Cefndir	12
2.5.a System yr UE ar gyfer llywodraethu amgylcheddol	12
2.5.b System llywodraethu amgylcheddol Cymru	12
2.6. Gwaith blaenorol y Pwyllgor NHAMG ar lywodraethu amgylcheddol	12

3.Rhan 3 - Effeithlonrwydd o ran Gwastraff ac Adnoddau16

3.1. Cyfrifoldeb cynhyrchwyr.....	16
3.2. Effeithlonrwydd o ran adnoddau ac ecoddyluniad	19

3.3.	Cynllun Dychwelyd Ernes.....	20
3.4.	Codi ffi am eitemau plastig untro	22
3.5.	Olrhain Gwastraff Electronig	24
3.6.	Gwastraff Peryglus.....	25
3.7.	Cludiant gwastraff trawsffiniol	26
3.8.	Rheoliadau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990	28
3.9.	Pwerau i greu cynlluniau codi ffioedd	28
3.10.	Pwerau gorfodi ar gyfer troseddau gwastraff.....	29
3.11.	Gorfodi ym maes sbwriel	30
3.12.	Hysbysiadau cosb benodedig.....	30
3.13.	Rheoleiddio gweithgareddau llygru	31
3.14.	Gwaith y Pwyllgor NHAMG ar wastraff.....	33
3.15.	Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: 'Mwy nag Ailgylchu'	33

4.Rhan 4 - Ansawdd Aer..... 35

4.1.	Ansawdd Aer Lleol.....	35
4.2.	Ardaloedd Rheoli Mwg.....	37
4.3.	Adalw cerbydau modur ar sail amgylcheddol	37

5.Rhan 5 - Dŵr..... 40

5.1.	Cynlluniau rheoli adnoddau dŵr, cynlluniau sychder, a chynigion ar y cyd.....	40
5.2.	Cynlluniau rheoli draeniad a charthffosiaeth	42
5.3.	Rheoleiddio cwmnïau dŵr a charthffosiaeth.....	43

5.4. Ansawdd Dŵr 45

5.5. Priso tir mewn ardaloedd draenio mewnol 46

6.Rhan 8 - Diwygio REACH50

1. Trosolwg o'r Bil

Cyflwynodd Llywodraeth y DU **Fil Amgylchedd 2020-21** ('y Bil') gerbron Tŷ'r Cyffredin ar 30 Ionawr 2020. Cafodd y Bil ei ail ddarlleniad ar 26 Chwefror. Mae'r Bil bellach yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus a fydd yn craffu ar ei ddarpariaethau fesul llinell. O ganlyniad i'r coronafeirws, nid yw'r amserlen ar gyfer ystyried y Bil yn hysbys ar hyn o bryd. Mae'r Bil wedi'i ailgyflwyno **o'r sesiwn seneddol flaenorol**. Mae'r rhan fwyaf o'r cymalau yr un fath â'r Bil blaenorol i raddau helaeth.

Gosododd Llywodraeth Cymru y **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil** gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 26 Chwefror 2020. Mae'r Bil yn ddarostyngedig i'r broses cydsyniad deddfwriaethol gan fod nifer o'r meysydd dan sylw yn dod o fewn cymhwysedd y Senedd. Er bod y rhan fwyaf o'r darpariaethau'n ymestyn i Gymru a Lloegr, mae yna rai rhannau sy'n ymestyn i'r DU gyfan neu'n berthnasol i wledydd penodol yn y DU.

Mae'r Bil yn ymdrin â dwy thema eang. Yn gyntaf, mae'n darparu fframwaith domestig newydd ar gyfer llywodraethiant amgylcheddol. Yn ail, mae'n darparu ar gyfer meysydd polisi amgylcheddol penodol gan gynnwys gwastraff, ansawdd aer, dŵr, natur a bioamrywiaeth, a chyfamodau cadwraeth.

Ar ôl i'r DU ymadael â'r UE ar 31 Ionawr 2020, mae Cyfarwyddebau'r UE a'r holl ddeddfwriaeth ddomestig sy'n eu gweithredu yn parhau i gael yr un effaith trwy gydol y cyfnod pontio yn rhinwedd **Deddf yr UE (Ymadael) 2018**. Ar ddiwrnod olaf y cyfnod pontio (a ddisgwylir ar 31 Rhagfyr 2020 ar hyn o bryd) bydd y ddeddfwriaeth ddomestig sy'n gweithredu'r Cyfarwyddebau yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir.

Mae **Rhan 1** yn amcanu i fynd i'r afael â'r bwlch llywodraethiant amgylcheddol yn y DU (yn Lloegr yn bennaf ond wedi'i chymhwyso rywfaint yng Nghymru a'r Alban) yn dilyn diwedd y cyfnod pontio o dan y Cytundeb Ymadael.

Mae Rhan 1 yn sefydlu Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a fyddai â swyddogaethau craffu, cynghori a gorfodi mewn perthynas â diogelu'r amgylchedd a'r amgylchedd naturiol. Dim ond mewn perthynas â materion heb eu datganoli y byddai Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn berthnasol yng Nghymru. Mae hefyd yn darparu ar gyfer gosod targedau amgylcheddol tymor hir yn Lloegr mewn pedwar 'maes blaenoriaeth' (sef ansawdd aer, dŵr, bioamrywiaeth ac effeithlonrwydd adnoddau/lleihau gwastraff). Nid yw'r rhan fwyaf o Ran 1 yn gymwys yng

Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'r agweddau sydd yn gymwys wedi'u rhestru fel rhai sydd angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y **Nodiadau Esboniadol** (er enghraifft Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd) gan nad ydynt wedi'u datganoli.

Mae **Rhan 2** yn ymwneud â llywodraethiant amgylcheddol yng Ngogledd Iwerddon.

Mae **Rhan 3** yn gwneud darpariaethau ar gyfer rheoli gwastraff, a chyfrifoldeb cynhyrchwyr. Mae'r darpariaethau'n cynnwys: cyflwyno cynllun diwygiedig ar gyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr; pwerau i reoleiddio ar gyfer safonau eco-ddylunio a gwybodaeth ar effeithlonrwydd adnoddau ar draws ystod ehangach o gynhyrchion; pwerau i reoleiddio mewnforion ac allforion gwastraff; a diwygiadau i gyfrifoldebau dros wahanu ac ailgylchu gwastraff. Mae hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer cynllun dychwelyd ernes. Mae'r rhan fwyaf o'r cymalau yn y rhan hon yn ymestyn i Gymru (ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â thâl bagiau untro a threfniadau gwahanu gwastraff). **Yn bennaf, mae Rhan 3 yn darparu pwerau llunio rheoliadau eang i Weinidogion Cymru, yn hytrach na darparu manylion am gynlluniau arfaethedig.**

Mae **Rhan 4** yn ymdrin ag ansawdd aer ac yn diwygio'r gofyniad am Fframweithiau Rheoli Ansawdd Aer Lleol, a threfniadau rheoli Fframweithiau o'r fath. Mae hefyd yn rhoi mwy o bwerau i awdurdodau lleol mewn ardaloedd rheoli mwg, ac mae'n cynnwys darpariaethau i'w gwneud yn ofynnol i gerbydau modur gael eu hadalw ar sail amgylcheddol. Mae agweddau ar Ran 4 yn berthnasol yng Nghymru, ac mae arni angen cydsyniad deddfwriaethol. Mae'r agwedd o ran adalw cerbydau modur yn berthnasol yng Nghymru, ond nid yw wedi'i rhestru fel un sydd angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan nad yw wedi'i ddatganoli.

Mae **Rhan 5** yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â rheoli adnoddau dŵr, gan gynnwys: datblygu cynlluniau rhanbarthol ar y cyd ar gyfer rheoli adnoddau dŵr; dyletswydd statudol i gwmnïau dŵr ddatblygu cynlluniau rheoli draeniad a charthffosiaeth tymor hir; diwygiadau i broses Ofwat ar gyfer trwyddedu cwmnïau dŵr; diwygiadau i broses y drwydded tynnu; a materion prisio tir. Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau yn gymwys yng Nghymru.

Mae **Rhan 6** yn darparu ar gyfer creu gofyniad newydd o ran enillion bioamrywiaeth net yn Lloegr.

Mae **Rhan 7** yn deddfu ar gyfer cyflwyno cyfamodau cadwraeth gwirfoddol sy'n

gyfreithiol rwymol rhwng tirfeddianwyr a 'chyrff cyfrifol' sy'n diogelu nodweddion naturiol neu dreftadol tir. Mae'r cymalau hyn ar gyfer Lloegr yn unig.

Mae **Rhan 8** yn amlinellu darpariaethau amrywiol a chyffredinol. Mae Cymal 125 yn darparu pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio Rheoliad yr UE ar Gofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH). Mae'r holl gymalau yn y rhan hon yn gymwys i Gymru, ond dim ond Cymal 125 sy'n gofyn am Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

1.1. Cymalau sy'n gymwys i Gymru

Mae'r **Nodiadau Esboniadol** ochr yn ochr â'r Bil yn nodi'r cymhwysiad a'r graddau tiriogaethol yn y DU ar gyfer pob cymal. Mae'r Nodiadau Esboniadol hefyd yn nodi a oes angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer pob cymal.

Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi'r cymalau penodol sy'n ymwneud â materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd:

- **Rhan 1: Llywodraethu Amgylcheddol** – cymal 19 (Datganiadau am Filiau sy'n cynnwys cyfraith amgylcheddol newydd) a chymal 43 (Ystyr cyfraith amgylcheddol) i'r graddau y mae'n gysylltiedig â chymal 19;
- **Rhan 3: Gwastraff ac Effeithlonrwydd o ran Adnoddau** – cymalau 47 a 48 (Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr) ac Atodlenni 4 a 5, cymalau 49 - 52 (Effeithlonrwydd o ran Adnoddau), cymal 55 (Olrhain gwastraff yn electronig: Prydain Fawr), cymal 57 (Gwastraff peryglus: Cymru a Lloegr), cymal 60 (Rheoliadau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990), cymal 61 (Pwerau i wneud cynlluniau codi ffi), cymal 63 (Pwerau gorfodi), cymal 65 (Gorfodi mewn perthynas â gollwng sbwriel), cymal 66 (Hysbysiadau Cosb Benodedig), cymal 67 (Rheoleiddio gweithgareddau sy'n achosi llygredd);
- **Rhan 4: Ansawdd aer ac adalw amgylcheddol** – cymal 69 (Fframwaith rheoli ansawdd aer yn lleol, cymal 70 (Ardaloedd rheoli mwg: diwygiadau i *Ddeddf Aer Glân 1993*))
- **Rhan 5: Dŵr** – cymalau 75 a 76 (cynlluniau a chynigion), cymal 77 (Pŵer awdurdod i wneud gwybodaeth yn ofynnol), cymal 79 (Cyflwyno dogfennau'n electronig), cymal 81 (Ansawdd dŵr: pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol), cymal 82 (Ansawdd dŵr: pwerau Gweinidogion Cymru), cymal 85 (Ansawdd dŵr: dehongli), cymalau 87 – 89 (Draenio tir)
- **Rhan 8: Darpariaethau Amrywiol a Chyffredinol** – cymal 125 (Diwygio'r deddfwriaeth ar Gofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH))

1.2. Y rhesymau dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil y DU

Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi nifer o resymau pam mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol deddfu ar gyfer Cymru yn y meysydd hyn trwy Fil y DU. Yn gyntaf mae'n nodi **nad oes amser yn amserlen y Senedd i gyflwyno Bil Amgylchedd** y gellid ei ddefnyddio i gyflwyno'r darpariaethau.

O ran y darpariaethau a wneir ar gyfer cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr, rheoli gwastraff a phlastigau untro, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Bil yn **gyfle amserol i fwrw ymlaen â nodweddion allweddol ei strategaeth economi gylchol**. Dywed:

...mae datblygu dull rheoleiddiol sy'n caniatáu cysondeb rhwng Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn bwysig am resymau sy'n gysylltiedig â'r farchnad ac mae'n adlewyrchu'r ffaith bod llawer o fusnesau sy'n gweithredu yn y sector yn gweithredu ar draws ffiniau.

Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, ymhelaethodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths ("Y Gweinidog") ar yr uchod gan nodi:

...mae'r darpariaethau deddfwriaethol presennol o fewn un darn o ddeddfwriaeth ac er mwyn darparu parhad a hygyrchedd i ddefnyddwyr mae'r Bil yn darparu un ffynhonnell i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol a thrwy hynny leihau nifer y gwelliannau o fewn y ddeddfwriaeth ffynhonnell.

Ar gyfer pwerau sy'n ymwneud â chyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr, rheoli gwastraff, cynlluniau a chynigion dŵr, rheoleiddio ymgymeryddwyr dŵr a charthffosiaeth, a rheoliadau REACH, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi:

...mae'r ffaith bod y systemau gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr yn rhai cydgysylltiedig yn golygu mai'r ffordd fwyaf effeithiol a phriodol o weithredu yw bod darpariaethau yn cael eu cyflwyno ar yr un pryd yn yr un offeryn statudol.

Goblygiadau os na chyflwynir y darpariaethau

Yn ei **llythyr at y Pwyllgor NHAMG** ar y Bil, mae'r Gweinidog yn nodi'r goblygiadau posibl yn y dyfodol i bolisi Cymru os na chyflwynir y darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil y DU. Dywed fod rhai darpariaethau yn y Bil yn adlewyrchu polisi cyfredol Llywodraeth Cymru, ac felly bod y Bil yn galluogi cyflawni polisi Cymru yn y dyfodol. Mae hi hefyd yn nodi bod y Bil yn darparu 'cyfrwng deddfwriaethol priodol' sy'n:

- Galluogi defnyddwyr i barhau i gael mynediad drwy barhau â dull deddfwriaethol ar gyfer Cymru a Lloegr;
- Ymwneud â system ar gyfer y DU gyfan fel yn achos darpariaethau REACH;
- Caniatáu ar gyfer cyflawni polisi Cymru yn gyflymach, o gofio'r cyfyngiad ar gapasiti'r Senedd wrth i ni agosáu at ddiwedd y tymor presennol; a
- Galluogi gweithredu gofynion yr UE.

1.3. Pwerau cydredol plws

Mae pwerau cydredol plws yn bwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu ar gyfer Cymru mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd y Senedd – os rhoddir cydsyniad gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Bil yn cynnwys pwerau cydredol plws mewn perthynas â:

- Cymal 47 ac Atodlen 4 – Rhwymedigaethau cyfrifoldeb cynhyrchwyr;
- Cymal 48 ac Atodlen 5 – Cyfrifoldeb y cynhyrchwyr am gostau gwaredu;
- Cymal 49 ac Atodlen 6 – Gwybodaeth am effeithlonrwydd o ran adnoddau;
- Cymal 50 ac Atodlen 7 – Gofynion effeithlonrwydd o ran adnoddau;
- Cymal 51 ac Atodlen 8 – Cynlluniau ernes;
- Cymal 81 – Pwerau ansawdd dŵr yr Ysgrifennydd Gwladol; a
- Cymal 125 – Diwygio deddfwriaeth Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH).

Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn nodi bod cynnwys y swyddogaethau 'cydredol plws' yn y Bil hefyd yn arwain at y cymalau sy'n gofyn am gydsyniad gan y gellid dadlau bod y darpariaethau yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac yn ei dro yn ddarpariaethau cymwys at ddibenion Rheol Sefydlog 29.1(ii).

Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn amlinellu tri maes arall sy'n peri pryder. Mae dau yn ymwneud â llywodraethu amgylcheddol (gweler yr adran nesaf). Mae'r trydydd yn ymwneud ag 'eithrio' pwerau. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi'r canlynol:

Nid oedd digon o amser cyn cyflwyno'r Bil i eithrio'r darpariaethau cydredol plws o'r cyfyngiadau cysylltiedig yn Atodlen 7B (Deddf Llywodraeth Cymru 2006). Mae Is-ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd yn Senedd y DU wedi gwneud ymrwymiad Gweinidogol i ddatgymhwyso'r darpariaethau hyn. Ar hyn o bryd, oherwydd y bydd

y darpariaethau'n addasu cymhwysedd y Cynulliad ac oherwydd eu bod hefyd yn ddarpariaethau at ddiben sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad, bydd angen cydsyniad ar eu cyfer.

Pe bai Llywodraeth Cymru yn cydsynio i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan y pwerau 'cydredol plws' hyn, byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig, ond ni fyddai'r rheoliadau hyn yn destun craffu gan y Senedd.

1.4. Goblygiadau ariannol y darpariaethau

Yn ei phapur i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (y Pwyllgor NHAMG), mae'r Gweinidog yn darparu manylion y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i asesu costau'r darpariaethau ar gyfer Cymru – boed yn gostau i Lywodraeth Cymru neu i gyrff perthnasol eraill a fydd yn ysgwyddo'r gost. Dywed y Gweinidog:

- Bydd y rhaglenni ar y cyd sy'n datblygu Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS) a Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) yn cynnwys asesiad effaith rheoleiddiol sy'n nodi costau gweithredu a chynnal y cynlluniau hyn. Caiff hyn ei fireinio wrth i'r opsiynau a ffefrir ddod i'r amlwg ac wrth i fanylion y ddau gynllun gael eu llunio.
- Yn gyffredinol, dylai EPR a DRS fod yn niwtral o ran cost i arian cyhoeddus gyda'r cynlluniau'n ceisio adennill eu costau drwy'r ffioedd a'r taliadau a fydd yn daladwy gan y diwydiant. Bydd hyn yn cynnwys costau i dalu am oruchwyllo rheoleiddiol drwy fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod costau cychwynnol i'r ddau gynllun, i gefnogi hyn mae cyllideb Trysorlys EM ar 11 Mawrth 2020 wedi dyrannu £700,000 ar gyfer gwaith TGCh cychwynnol ar EPR ar gyfer deunydd pacio.
- Mewn perthynas â chymal 70 a Rhan 2 o Atodlen 12 (ar *Ardaloedd Rheoli Mwg*), bydd swyddogion yn gwneud gwaith pellach mewn perthynas ag amcangyfrifiadau cost ond mae asesiad rhagarweiniol yn dangos y bydd y costau'n fach iawn heb unrhyw gostau parhaus ar wahân i gostau cyfieithu.
- Mae'r diwygiadau i ardollau ac ardrethi draenio tir yn cryfhau sefyllfa Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gweinyddu Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru, gan ddarparu mecanwaith felly ar gyfer cymhwyso ardollau ac ardrethi draenio cywir.
- Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r pwerau a roddir i Weinidogion gan y darpariaethau cemegion gan nad oes rhaid i Weinidogion eu harfer. Nid yw'r darpariaethau'n creu rhwymedigaethau newydd ond yn rhoi

pwerau i ddiwygio'r Rheoliadau REACH presennol. Pan fydd Gweinidogion yn penderfynu arfer y pwerau hyn byddai asesiad o'r goblygiadau ariannol yn cael ei wneud ar y pryd. Gallai hyn arwain at gostau ariannol neu arbedion.

- Mewn perthynas â chostau i gwmnïau dŵr a/neu garthffosiaeth o ran bodloni'r gofynion ar gyfer cynigion ar y cyd, cynlluniau sychder rheoli adnoddau dŵr, a chynlluniau rheoli draenio a charthffosiaeth – ac eithrio Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff statudol ni ddylai fod unrhyw gostau ychwanegol gan fod cwmnïau dŵr eisoes yn paratoi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a sychder statudol.

Cyhoeddodd y Pwyllgor NHAMG ei **adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** ar 2 Gorffennaf 2020. Dyma ei argymhelliad cyffredinol:

Argymhelliad 1: Rydym yn argymhell y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r darpariaethau ym Mil Amgylchedd y DU, ar yr amod ei bod yn fodlon ar ymateb y Gweinidog i bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei ymateb i'r adroddiad ar 16 Gorffennaf, gan dderbyn 14 o'r 15 argymhelliad, a derbyn un argymhelliad mewn egwyddor.

Gwnaeth y Pwyllgor ddau argymhelliad trosfwaol arall ar gyfer y Bil:

Argymhelliad 2: Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ymgynghori ar gynigion a/neu reoliadau drafft cyn gwneud rheoliadau gan ddefnyddio'r pwerau a ddarperir yn y Bil.

Ac:

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau y bydd sefydliadau trydydd parti, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cael adnoddau priodol i gyflawni dyletswyddau neu gyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau yn y Bil hwn.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion 1, 2 a 3. O ran argymhelliad 2, dywedodd y Gweinidog y bydd y Llywodraeth yn 'ymgynghori'n gywir ac yn briodol' â'r sawl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y ddeddfwriaeth, a'r sawl sydd â diddordeb yn effaith gyffredinol y ddeddfwriaeth cyn gwneud rheoliadau'n defnyddio'r pwerau a ddarperir yn y Bil. O ran argymhelliad 3, amlinellodd y Gweinidog fod cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a chynllun Dychwelyd Ernes wrthi'n cael eu dylunio yn seiliedig ar yr egwyddor mai'r 'llygrwr sy'n talu', ac y bydd cynhyrchwyr sydd â rhwymedigaeth yn gorfod talu ffi. Bydd y ffi hwn yn talu am amryw elfennau, gan gynnwys unrhyw gostau cydymffurfio a monitro sydd eu hangen. Dywedodd y Gweinidog fod swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhan flaenllaw o'r gwaith o ddatblygu'r ddau gynllun, a'u bod wrthi'n datblygu

modelau costau i sicrhau bod y costau a gaiff eu hadennill gan gynhyrchwyr yn adlewyrchu'r costau yr eir iddynt drwy unrhyw weithgareddau rheoleiddiol. O ran y cynigion dŵr yn y Bil, dywedodd y Gweinidog y byddai unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol a osodir ar Cyfoeth Naturiol Cymru, a'r goblygiadau adnoddau yn sgil hynny, yn cael eu hasesu yn erbyn cylch gwaith a rhwymedigaethau statudol CNC, ac ymgynghorir â CNC drwy gydol y broses.

2. Rhan 1 - Llywodraethu Amgylcheddol

Nod Rhan 1 o'r Bil yw darparu fframwaith domestig newydd ar gyfer llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit, yn bennaf ar gyfer Lloegr Mae'r Bil yn dilyn **Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu) drafft Llywodraeth y DU yn 2018**; mae **erthygl gan Ymchwil y Senedd** sy'n darparu manylion am y Bil drafft.

Mae **papur briffio Tŷ'r Cyffredin** yn darparu dadansoddiad cynhwysfawr o ddarpariaethau'r Bil. Isod ceir manylion am ddarpariaethau a fydd o ddiddordeb i Aelodau'r Senedd gan eu bod yn berthnasol i waith blaenorol y Pwyllgor NHAMG, neu gan eu bod wedi'u cynnwys ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

2.1. Datganiad polisi ar yr egwyddorion amgylcheddol

Mae cymalau 16-18 o'r Bil yn ymwneud â gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi datganiad polisi ar egwyddorion amgylcheddol, ac i Weinidog y Goron roi sylw i'r datganiad hwn wrth wneud penderfyniadau polisi. Rhaid i'r datganiad polisi gyfrannu at ddiogelu'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy. **Nid yw'r datganiad polisi ar egwyddorion amgylcheddol ond yn gymwys yn Lloegr.**

Nodir ystyr 'egwyddorion amgylcheddol' yng nghymal 16(5) fel a ganlyn:

- (a) the principle that environmental protection should be integrated into the making of policies,
- (b) the principle of preventative action to avert environmental damage,
- (c) the precautionary principle, so far as relating to the environment,
- (d) the principle that environmental damage should as a priority be rectified at source, and
- (e) the polluter pays principle.

2.2. Datganiadau ar gyfraith amgylcheddol

Mae cymal 19 yn ei gwneud yn datgan, pan fo Bil a gyflwynir i'r Senedd yn cynnwys darpariaethau a fyddai'n 'gyfraith amgylcheddol' (a ddiffinnir o dan gymal 43) ar ôl iddo gael ei wneud yn Ddeddf, ei bod yn ofynnol i'r Gweinidog cyfrifol wneud datganiad i'r Tŷ. Rhaid i'r datganiad nodi nad yw'r Bil yn cael yr effaith o leihau'r lefel gwarchodaeth a ddarperir gan unrhyw gyfraith amgylcheddol bresennol; sef datganiad 'dim atchwelyd' mewn gwirionedd. Fel arall, rhaid i'r Gweinidog nodi nad yw'n gallu gwneud datganiad o'r fath, ond bod

Llywodraeth y DU serch hynny yn dymuno i Senedd y DU fwrw ymlaen â'r Bil. Roedd y Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn nodi y gallai hyn godi lle nad yw tystiolaeth wyddonol newydd yn cyfiawnhau diogelu'r amgylchedd yn y DU mwyach.

Mae diffiniad 'cyfraith amgylcheddol' a ddarperir o dan gymal 43 yn cynnwys 'darpariaeth deddfwriaethol ddatganoledig' at ddibenion cymal 19. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn datgan mai 'effaith hynny yw bod y gofynion [o ran datganiadau 'dim atchwelyd] yn gymwys i'r un graddau i Filiau'r DU sy'n ymwneud â 'chyfraith amgylcheddol' sy'n gymwys yng Nghymru, yn yr un ffordd ag y mae'r gofynion hynny'n gymwys yn Lloegr'.

Mae cymalau 19 a 43 yn gymwys ledled y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol bod angen cydsyniad y Senedd, yn ei barn hi, ar gyfer Cymal 19 (Datganiadau am Filiau sy'n cynnwys cyfraith amgylcheddol newydd) a Chymal 43 (Ystyr cyfraith amgylcheddol) i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymal 19. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU wedi nodi'r cymalau hyn fel rhai sydd angen cydsyniad. Mae cynghorwyr cyfreithiol y Senedd yn cytuno â safbwynt Llywodraeth y DU nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau hyn.

Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn esbonio bod Llywodraeth y DU o'r farn bod y darpariaethau hyn yn ymwneud â phrosesau Seneddol, ac o'r herwydd yn fater a ddargedwir. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn dadlau bod diben y darpariaethau hyn yn amgylcheddol ac felly wedi'u datganoli, sy'n gofyn am gydsyniad.

2.3. Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd

Mae **cymalau 21-40** (Pennod 2) yn ymwneud â sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd a phwerau corff o'r fath, a fyddai'n dwyn yr enw Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd. Byddai gan y Swyddfa swyddogaethau craffu, cynghori a gorfodi. **Byddai Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn berthnasol ledled y DU, ond dim ond o ran materion amgylcheddol nad ydynt wedi'u datganoli yng Nghymru.**

Mae **cymal 24(4)** yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ymgynghori â chorff llywodraethu amgylcheddol datganoledig os yw'n ystyried y gallai agwedd benodol ar ei swyddogaethau fod yn berthnasol i arfer swyddogaeth llywodraethu amgylcheddol ddatganoledig. **Mae hyn yn gymwys ledled y DU.**

Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor NHAMG, mae'r Gweinidog yn rhoi rhagor o fanylion am rôl Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yng Nghymru (pwyslais gan Ymchwil y Senedd):

Mae cylch gorchwyl yr OEP ar gyfer Lloegr a materion a gedwir yn ôl. Prin yw'r meysydd a gedwir yn ôl, un enghraifft benodol yw INSPIRE (Seilwaith ar gyfer Gwybodaeth Ofodol yn Ewrop), sydd wedi'i neilltuo'n benodol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, mae cylch gwaith yr OEP wedi'i ymestyn i gynnwys newid yn yr hinsawdd, sydd â chysylltiad agos ag ynni, sydd, heblaw am rai eithriadau, yn fater a gedwir yn ôl.

Er na fydd llawer o feysydd lle y bydd yr OEP yn goruchwylio materion amgylcheddol yng Nghymru, lle mae hyn yn digwydd **mae'n hanfodol bod yr OEP yn gweithio gyda'r corff 7 perthnasol sy'n gyfrifol am lywodraethu amgylcheddol yng Nghymru i sicrhau bod y meysydd o orgyffwrdd rhwng materion a gedwir yn ôl a rhai datganoledig yn cael eu hystyried yn llawn.**

2.4. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Llywodraethu amgylcheddol

Nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol fod Llywodraeth Cymru ar y cyfan yn cefnogi'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio. Fodd bynnag, mae'n codi tri maes arall sy'n peri pryder, ac mae dau ohonynt yn ymwneud â'r rhan o'r Bil sy'n gysylltiedig â llywodraethu amgylcheddol:

Mae'r [pryderon] hynny'n ymwneud ag effaith cymal 19 (na fydd safonau o ran diogelu'r amgylchedd yn is nag ar hyn o bryd) ar gymhwysedd datganoledig ac ar y ddyletswydd sydd ar Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd i ymgynghori â chyrrff llywodraethu amgylcheddol datganoledig (cymal 24(4)). O dan gymal 24(4), mae'n ofynnol i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ymgynghori â chorff llywodraethu amgylcheddol datganoledig os yw o'r farn y gallai arfer swyddogaethau penodol sydd ganddi fod yn berthnasol i arfer swyddogaeth llywodraethu amgylcheddol sydd wedi'i datganoli. O gofio bod posibilrwydd y gallai Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ymchwilio i gŵyn a allai fod yn gysylltiedig â materion a gadwyd yn ôl a materion sydd wedi'u datganoli, mae'n bosibl y bydd angen y gallu ar y corff hwnnw i gydweithio â chorff cyfatebol yng Nghymru. Mae'r materion hyn yn cael eu trafod gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ar hyn o bryd.

Mae papur y Gweinidog yn nodi ei bod yn ceisio cryfhau'r ddyletswydd ymgynghori bresennol sydd yng nghymal 24(4) o'r Bil, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ymgynghori â chyrrff llywodraethu amgylcheddol datganoledig. Mae'r Gweinidog yn amlinellu (pwyslais gan Ymchwil y Senedd):

Nid yw'r ddyletswydd arfaethedig i ymgynghori yn mynd cyn belled â darparu ar gyfer y dull cydweithredol hwn, gan nad yw'n caniatáu ar gyfer nodi'n gynnar ble y gallai fod angen i'r cyrff gydweithio, ac i'r corff Cymreig fod yn rhan o'r penderfyniad ynghylch a yw ymchwiliad yn berthnasol iddo. At hynny, nid yw'n caniatáu i ymchwiliadau gael eu cynnal ar gyfer rhannu arferion gorau ac arbenigedd rhwng y cyrff. Yn unol â hynny, **rydym yn ceisio gwelliant i'r Bil i alluogi trefniadau cydweithredol.**

2.5. Cefndir

2.5.a System yr UE ar gyfer llywodraethu amgylcheddol

Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd, Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd a chyrrff Ewropeaidd eraill rôl bwysig wrth weithredu cyfreithiau amgylcheddol ledled yr UE. Trefnir y cyfreithiau hyn, a'r modd y cânt eu dehongli, gan **Egwyddorion amgylcheddol yr UE**, sydd wedi'u bwriadu i sicrhau safonau amgylcheddol uchel. Ni fydd y strwythurau llywodraethu hyn yn berthnasol mwyach ar ôl cyfnod pontio Brexit. Mae cryn bryder ar draws y sector amgylcheddol y bydd hyn yn creu **'bwlch llywodraethu' yn y DU.**

2.5.b System llywodraethu amgylcheddol Cymru

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen, yng Nghymru, drefniadau llywodraethu ar wahân i'r rhai yn y Bil oherwydd y cyd-destun deddfwriaethol gwahanol. Yn flaenorol, daeth i'r casgliad nad yw model Llywodraeth y DU ar gyfer corff llywodraethu 'yn addas' i Gymru. Er hyn, mae'r Gweinidog wedi cydnabod bod angen cydweithio ar draws y DU.

Mae Llywodraeth Cymru **wedi ymrwymo** i ddeddfu yn y maes hwn. Mae'r Gweinidog wedi **cynnull Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid** sydd wedi llunio argymhellion i'r Gweinidog yn gynharach eleni. Yn ei phapur i'r Pwyllgor NHAMG, mae'n rhoi diweddariad ar waith y grŵp. Mae hi'n amlinellu y bydd ei swyddogion yn cynnal dadansoddiad llawn o'r argymhellion yn yr adroddiad fel rhan o werthusiad ehangach o'r opsiynau. Nid yw'r amserlen ar gyfer y gwaith hwn wedi'i hamlinellu.

2.6. Gwaith blaenorol y Pwyllgor NHAMG ar lywodraethu amgylcheddol

Mae'r Pwyllgor NHAMG wedi cynnal dau ymchwiliad i lywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol. Roedd yr **ymchwiliad cyntaf** (haf 2018) yn cynnig ystyriaeth gychwynnol o'r materion. Roedd yr **ail ymchwiliad** (haf 2019) yn dilyn

ymgyngoriad Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2019 ar egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu amgylcheddol.

O ran y corff/cyrff llywodraethu amgylcheddol, clywodd y Pwyllgor bryderon y byddai Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd arfaethedig yn 'gorgyffwrdd ac yn gwrthdaro' â chynigion Llywodraeth Cymru o ystyried cymhlethdod cyfansoddiadol y cynlluniau. Fel y trafodwyd, byddai Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn gymwys yng Nghymru ond dim ond mewn meysydd amgylcheddol heb eu datganoli, tra byddai corff llywodraethu Cymru yn berthnasol mewn meysydd amgylcheddol wedi'u datganoli. Mae Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru yn nodi y byddai'r dull hwn yn dod yn faes cyfreithiol dryslyd os na chaiff ei ddatrys. Yn ei ail adroddiad (2019), **argymhellodd y Pwyllgor:**

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu i unrhyw gorff llywodraethu newydd sy'n gweithredu yng Nghymru weithio gyda'r OEP arfaethedig ac unrhyw gorff cyfatebol yn yr Alban i sicrhau dull cydgysylltiedig o ddiogelu'r amgylchedd ledled y DU ar ôl Brexit.

Fel y trafodwyd, mae Cymal 24(4), yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ymgynghori â chorff llywodraethu amgylcheddol datganoledig os yw'n ystyried bod mater yn berthnasol i arfer swyddogaeth y corff hwnnw. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol bod trafodaethau ynghylch cydgysylltu yn dal i fynd rhagddynt.

O ran y rhyngweithio rhwng egwyddorion amgylcheddol penodol Cymru a'r egwyddorion ledled y DU, daeth y Pwyllgor i'r casgliad a ganlyn yn ei **adroddiad cyntaf:**

Rydym yn pryderu am y gwrthdaro posibl rhwng penderfyniadau Llywodraeth y DU ar faterion a gedwir yn ôl a pholisïau Cymru. Bydd yn bosibl i Lywodraeth y DU wneud penderfyniadau ar faterion a gedwir yn ôl sy'n effeithio ar Gymru a fyddai'n gwrthdaro'n uniongyrchol ag egwyddorion neu safonau sy'n cael eu mabwysiadu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn ymarferol, gallai hyn olygu bod dwy set gyfochrog o safonau'n cael eu gweithredu yng Nghymru, a bod safonau amgylcheddol gwahanol, o bosibl, yn cael eu cymhwyso i faterion datganoledig a materion a gedwir yn ôl.

Ym mis Awst 2019, **rhoddodd y Gweinidog wybod i'r Pwyllgor NHAMG** fod Llywodraeth Cymru '[eisoos] wedi cytuno â Llywodraeth y DU i gael set gyffredin o egwyddorion amgylcheddol a bod gwaith yn mynd rhagddo ar gynigion, sydd, lle bo hynny'n briodol, yn galluogi dulliau llywodraethu ar y cyd'. Fodd bynnag, nid yw'n amlwg sut y byddai'r cytundeb hwn yn gweithredu o ystyried bod yr

egwyddorion a'r datganiad polisi a amlinellir yn y Bil hwn yn berthnasol yn Lloegr yn unig.

Yn ei phapur i'r Pwyllgor, mae'r Gweinidog yn rhoi diweddariad ar gyflwyno Bil egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu ar gyfer Cymru. Dywed:

We have been clear in our commitment to legislate to place our approach to environmental principles and governance on a statutory footing.

The current legislative programme is coming under considerable pressure both from the need to introduce urgent legislation to address Covid-19 and the substantial programme of secondary legislation to deliver a functioning statute book for the end of the Transition Period later this year. This has obviously had impacts on our legislative timetable and is impacting on the Bills currently within the legislative programme.

In light of all of this, the Welsh Government cannot provide any guarantees on any new Bills being introduced later this year.

Tystiolaeth rhanddeiliaid a chasgliadau'r Pwyllgor NHAMG

Roedd llawer o'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn ailadrodd pryderon a godwyd yn ei waith blaenorol ar egwyddorion a llywodraethiant amgylcheddol ar ôl Brexit. Mae hyn yn cynnwys diffyg eglurder o ran pa egwyddorion amgylcheddol fydd yn gymwys i weinidogion y DU ynteu gyrff sy'n gweithredu yng Nghymru; nad yw Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn ddigon annibynnol oddi wrth Llywodraeth y DU; ac y byddai'r strwythur llywodraethu domestig a gynigir yn wannach na'r trefniadau drwy aelodaeth y DU o'r UE.

Gwnaeth y Pwyllgor dri argymhelliad yn y maes hwn:

Argymhelliad 4: Cyn y ddadl ar y Memorandwm, rhaid i'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ynglŷn â'r cynnydd a wnaed o ran sicrhau diwygiad i Gymal 24 i wneud darpariaeth ar gyfer gwaith cydweithredol rhwng Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac unrhyw gorff llywodraethu cyfatebol yng Nghymru. Os na ellir diwygio Cymal 24, rhaid i'r Gweinidog nodi pa fesurau a gyflwynir i sicrhau y bydd cyrff Cymru a Lloegr neu'r DU yn cydweithio.

Argymhelliad 5: Dylai'r Gweinidog nodi amserlen ar gyfer sefydlu mesurau llywodraethu amgylcheddol dros dro yn dilyn diwedd y cyfnod pontio ac ymadawiad y DU â'r UE.

Argymhelliad 6: Dylai'r Gweinidog gyhoeddi adroddiad y grŵp rhanddeiliaid y gofynnodd iddo ystyried trefniadau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru yn y dyfodol. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y grŵp.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion 4, 5 a 6. O ran argymhelliad 4,

dywedodd y Gweinidog ei bod wrthi'n ymgynghori â Defra a'i bod yn bwriadu rhoi diweddariad i'r Senedd ar ôl toriad yr haf. O ran argymhelliad 5, dywedodd y Gweinidog mai'r bwriad yw sefydlu mesurau llywodraethu amgylcheddol dros dro ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Dywedodd ei fod yn flaenoriaeth ganddi i sicrhau bod cyfundrefn gwynion ar waith, a fydd yn darparu gwefan benodol ar gyfer llywodraethiant amgylcheddol ynghyd â ffurflen gwyno. O ran argymhelliad 6, dywedodd y Gweinidog y bydd yr adroddiad rhanddeiliaid yn cael ei gyhoeddi, ynghyd â dadansoddiad pellach o gost opsiynau, pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau yn yr hydref.

3. Rhan 3 - Effeithlonrwydd o ran Gwastraff ac Adnoddau

Mae **Rhan 3** o'r Bil yn ymdrin ag effeithlonrwydd o ran gwastraff ac adnoddau. Mae'n cwmpasu'r meysydd canlynol sy'n ymwneud â Chymru:

- Diwygio'r **cynllun cyfrifoldeb cynhyrchwyr pecynnau**, gyda'r nod o wneud cynhyrchwyr (busnesau sy'n cynhyrchu neu'n defnyddio rhywfaint o ddeunydd pecynnu, neu'n gwerthu nwyddau wedi'u pecynnu e.e. manwerthwyr neu archfarchnadoedd) yn gyfrifol am y costau net llawn yn sgil rheoli eu cynhyrchion ar ddiwedd eu hoes;
- Darparu pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion datganoledig bennu gofynion sylfaenol i weithgynhyrchwyr a chynhyrchwyr roi gwybodaeth am **effeithlonrwydd o ran adnoddau** eu cynhyrchion (yn amodol ar rai eithriadau, gan gynnwys meddyginiaethau);
- Darparu fframwaith i gyflwyno **cynllun dychwelyd ernes** ar gyfer rhai eitemau fel cynwysyddion diodydd untro;
- Darparu fframwaith ar gyfer gosod ffi ar **eitemau plastig untro** sy'n cael eu darparu'n gysylltiedig â nwyddau neu wasanaeth (e.e. cynwysyddion bwyd tecawê plastig neu gyllyll a ffyrc plastig);
- Caniatáu ar gyfer cyflwyno system **olrhain gwastraff electronig** ym Mhrydain Fawr, gyda throseddau a chosbau sifil cysylltiedig;
- Galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i reoleiddio achosion o **fewnforio, allforio neu gludo gwastraff a gwastraff peryglus**;
- Diwygio'r pŵer presennol i godi ffi sydd ar gael i'r rheolyddion amgylcheddol perthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban mewn perthynas â thrwyddedau amgylcheddol a chynlluniau cyfrifoldeb cynhyrchwyr;
- Diwygio **pwerau gorfodi** (e.e. atafaelu cerbydau, pwerau mynediad ac ati) mewn perthynas â throseddau gwastraff; a
- Darparu sail i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar ddefnydd awdurdodau lleol o **bwerau gorfodi sbwriel**.

3.1. Cyfrifoldeb cynhyrchwyr

Mae **cymalau 47-48**, ac **Atodlenni 4 a 5** i'r Bil yn ymwneud â chyfrifoldeb cynhyrchwyr a rhwymedigaethau cysylltiedig. **Nod y Bil yw ymestyn cwmpas y cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr presennol**. Mae **cymal 47**

ac **Atodlen 4** yn diddymu adrannau 93 i 95 o *Ddeddf yr Amgylchedd 1995* ac yn disodli'r darpariaethau hyn gyda **phwerau gwneud rheoliadau ynghylch y rhwymedigaethau yn sgil cyfrifoldeb cynhyrchwyr**. Byddai'r rhain yn caniatáu i'r 'awdurdod cenedlaethol perthnasol' (Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol yng Nghymru) **wneud rheoliadau newydd i gyflwyno cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr diwygiedig**. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu mewn perthynas â Chymru yn y maes hwn gyda chydysniad Gweinidogion Cymru (pŵer 'cydredol plws').

Mae **Atodlen 4** yn gwneud nifer o ddarpariaethau mewn perthynas â'r pŵer i wneud rheoliadau. Mae'n nodi y gall rheoliadau:

- Ond gael eu gwneud at ddibenion penodol. Y dibenion hyn yw atal, neu leihau faint o gynnyrch neu ddeunydd sy'n mynd yn wastraff, a chadw o fewn isafswm gwastraff; neu hyrwyddo neu sicrhau cynnydd yn yr ailddefnydd, aiddosbarthu, adfer neu ailgylchu a wneir â chynhyrchion neu ddeunyddiau;
- Nodi'r personau a'r cynhyrchion neu'r deunyddiau y gall rhwymedigaethau cyfrifoldeb cynhyrchwyr fod yn berthnasol iddynt, a darpariaethau ynghylch y rhwymedigaethau sydd i'w gosod. Gallant hefyd wneud darpariaeth ynghylch targedau i'w cyflawni fel rhan o rwymedigaeth cyfrifoldeb cynhyrchwyr;
- Caniatáu i rwymedigaethau cyfrifoldeb cynhyrchwyr gael eu cyflawni yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy dalu swm o arian, a elwir yn 'ffi cydymffurfio'; ac
- Ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n ddarostyngedig i rwymedigaeth cyfrifoldeb cynhyrchwyr gael eu cofrestru a'u gorfodi i ymuno â chynllun cydymffurfio.

Mae **cymal 47** a **Rhan 2 o Atodlen 4** yn nodi'r **awdurdod cenedlaethol perthnasol sydd â phwerau i wneud rheoliadau ynghylch gorfodi rhwymedigaethau cyfrifoldeb cynhyrchwyr**. Byddai hyn yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud mewn perthynas â swyddogaethau'r awdurdod gorfodi, pwerau mynediad, ac atafaelu a chadw eiddo. Gallent hefyd greu sancsiynau a allai fod yn droseddau (y gellir eu cosbi â dirwy) neu gosb sifil, am fethu â chydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae **cymal 48** ac **Atodlen 5** yn creu **darpariaethau ar gyfer y sawl sy'n ymwneud â'r gwaith o 'weithgynhyrchu, prosesu, dosbarthu neu gyflenwi cynhyrchion neu ddeunyddiau' y mae gofyn iddynt, yn ôl rheoliadau, dalu am neu gyfrannu at gostau gwaredu'r eitemau hynny**. Mae **cymal 48** a **Rhan 2 o Atodlen 5** hefyd yn darparu pŵer i wneud rheoliadau ynghylch gorfodi'r cynllun.

Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod y pwerau a roddir yng **nghymal 47** ac **Atodlen 4**, a **chymal 48** ac **Atodlen 5** yn arferadwy trwy'r weithdrefn gadarnhaol gerbron y Senedd, neu gerbron Senedd y DU lle mai'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n arfer y pwerau.

Yn ei phapur i'r Pwyllgor NHAMG, nododd y Gweinidog fod gwaith yn parhau ar raglen waith ar gyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr ar y cyd â'r Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Dywed nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn â'r llwybr ar gyfer cyflwyno rheoliadau i ddeddfu ar gyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr.

Cefndir

O dan **Cyfarwyddeb Pecynnu a Gwastraff Pecynnu yr UE (94/62/EC)**, mae gan y DU gyfundrefn cyfrifoldeb cynhyrchwyr statudol ar gyfer pecynnu, sy'n cwmpasu'r gadwyn gyflenwi gyfan o'r deunyddiau crai i'r pecynnu gorffenedig. Bwriad hyn yw cymell cynhyrchwyr pecynnau i gymryd cyfrifoldeb ariannol am ailgylchu eu cynhyrchion yn y pen draw. Ystyr 'pecynnau' yw unrhyw ddeunydd a ddefnyddir i ddal, diogelu, trin, danfon neu gyflwyno nwyddau. Mae'n cynnwys ystod eang o ddeunyddiau y tu hwnt i blastig yn unig, gan gynnwys papur, gwydr, alwminiwm, dur a phren. Roedd Cyfarwyddeb yr UE yn gosod targedau gwastraff pecynnu o 60% o ran lleiafswm adfer (sy'n ymwneud â chasglu deunyddiau) a 55% ar gyfer ailgylchu, i'w cyflawni erbyn 31 Rhagfyr 2008. Roedd hefyd yn gosod targedau ailgylchu penodol ar gyfer deunyddiau penodol. Mae'r targedau hynny fel a ganlyn: 60% ar gyfer gwydr, 60% ar gyfer papur a chardbord, 50% ar gyfer metelau, 22.5% ar gyfer plastigau, a 15% ar gyfer pren.

Mae **Cyfarwyddeb Diwygio Gwastraff Pecynnu 2018 (Cyfarwyddeb (yr UE) 2018/852)** yn diwygio *Cyfarwyddeb Gwastraff Pecynnu 1994* trwy gynyddu'r targed ailgylchu i 70% (yn ôl pwysau) ar gyfer gwastraff pecynnu erbyn 2030, gyda tharged interim o 65% erbyn 2025. Mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau'r UE ymgorffori'r *Cyfarwyddeb Diwygio Gwastraff Pecynnu 2018* o fewn cyfraith genedlaethol erbyn 5 Gorffennaf 2020.

Mae Llywodraeth y DU yn gweithredu gofynion *Cyfarwyddeb Gwastraff Pecynnu yr UE 1994* trwy osod rhwymedigaeth gyfreithiol ar fusnesau dros faint penodol sy'n gwneud neu'n defnyddio deunydd pecynnu, i sicrhau bod cyfran o'r deunydd pecynnu a roddir ar y farchnad ganddynt yn cael ei adfer a'i ailgylchu. Gelwir hyn yn gynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr ar gyfer pecynnu. Y deddfwriaeth sylfaenol sy'n sefydlu hyn yw *Deddf yr Amgylchedd 1995* ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r cynllun wedi bod ar waith ers 1997 ac mae'n gweithredu ledled y DU

o dan reoliadau Prydain Fawr a rheoliadau cyfochrog Goledd Iwerddon.

- Mae **Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Pecynnu) 2007**, a **Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Pecynnu) (Gogledd Iwerddon) 2007** yn ymdrin ag ailgylchu ac adfer gwastraff pecynnu; ac
- Mae **Rheoliadau Pecynnu (Gofynion Hanfodol) (Diwygio) 2015** yn ymdrin ag agweddau dyluniad a gweithgynhyrchu pecynnu.

Mae busnesau perthnasol yn cyflawni eu cyfrifoldebau trwy gasglu tystiolaeth o ailgylchu ac adfer pecynnau gwastraff sy'n cyfateb i bwysau eu rhwymedigaethau gan ail-broseswyr ac allforwyr achrededig. Cyhoeddir Nodiadau Adfer Pecynnau neu Nodiadau Adfer Allforio Pecynnau gan fusnesau achrededig, ac maent yn darparu'r dystiolaeth o gydymffurfriad. Yn 2017, **cofrestrodd 7,002 o gwmnïau** fel rhai sydd â rhwymedigaethau pecynnu ledled y DU.

Yn 2019, bu Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU **yn ymgynghori ar y cyd ar gynigion ar gyfer cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr**. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori **ar ei strategaeth ar gyfer economi gylchol**, sy'n cynnwys cynigion ynghylch cyfrifoldeb cynhyrchwyr.

Byddwn yn cydweithio â llywodraethau eraill yn y DU i ddatblygu deddfwriaeth ar gyfer cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio ac yn datblygu dull gweithredu Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer cynnyrch ychwanegol megis teiars, tecstilau, gwastraff swmpus (er enghraifft celfi, matresi a charpedi) a chynnyrch a ddefnyddir ym maes adeiladu.

3.2. Effeithlonrwydd o ran adnoddau ac ecoddyluniad

Mae'r cynigion effeithlonrwydd o ran adnoddau ac ecoddyluniad yn y Bil yn rhan o'r diwygiadau arfaethedig ehangach mewn perthynas â chyfrifoldeb cynhyrchwyr. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar strategaeth yr economi gylchol y soniwyd amdano'n flaenorol hefyd yn cynnwys cynigion yn ymwneud ag effeithlonrwydd o ran adnoddau.

Mae **cymal 49** o'r Bil yn rhoi effaith i **Atodlen 6** sy'n rhoi i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol (yr Ysgrifennydd Gwladol, neu Weinidogion datganoledig lle mae ganddynt gyfrifoldeb) **y pŵer i wneud rheoliadau sy'n gosod y gofynion sylfaenol i weithgynhyrchwyr a chynhyrchwyr ddarparu gwybodaeth am effeithlonrwydd o ran adnoddau eu cynhyrchion**. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi mai bwriad y mesur yw lleihau effaith cynhyrchion ar adnoddau naturiol trwy sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth am effeithlonrwydd y

cynhyrchion hynny o ran adnoddau er mwyn annog defnydd mwy cynaliadwy. Mae pob rheoliad o dan **Atodlen 6** yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae'r math o wybodaeth y gellir ei chynnwys yn y rheoliadau wedi ei nodi yn **Atodlen 6**, ac mae'n cynnwys:

- Oes ddisgwyliedig y cynnyrch;
- Agweddau ar ddyluniad y cynnyrch sy'n effeithio ar ei oes ddisgwyliedig;
- Argaeledd neu gost cydrannau, offer, neu unrhyw beth arall sy'n ofynnol i gynnal neu adfer y cynnyrch;
- Y ffyrdd y gellir cael gwared ar y cynnyrch ar ddiwedd ei oes (gan gynnwys a ellir ei ailgylchu ac i ba raddau, ac a ellir tynnu neu aildefnyddio/ailgylchu deunyddiau o fewn y cynnyrch);
- Y deunyddiau a ddefnyddir i gynhyrchu'r cynnyrch;
- Y technegau a ddefnyddir wrth ei gynhyrchu; ac
- Y llygryddion sy'n cael eu rhyddhau neu eu hallyrru ar unrhyw gam o'r broses gynhyrchu, defnyddio neu waredu'r cynnyrch.

Mae cymal 50 ac Atodlen 7 yn rhoi pŵer i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol wneud rheoliadau sy'n nodi'r gofynion o ran effeithlonrwydd adnoddau y mae'n rhaid i gynhyrchion eu bodloni. Mae'r holl reoliadau o dan Atodlen 7 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

3.3. Cynllun Dychwelyd Ernes

Mae'r Bil yn diffinio Cynllun Dychwelyd Ernes yn **Atodlen 8, paragraff 1(2)** fel a ganlyn:

A deposit scheme is a scheme under which-

(a) a person supplied with a deposit item by a scheme supplier pays the supplier an amount (a 'deposit'), and

(b) a person who provides a deposit item to a scheme collector is entitled to be paid an amount (a 'refund') in respect of that item by the collector.

Nid yw'r Bil yn dweud pa ddeunyddiau fyddai'n cael eu cynnwys mewn cynllun dychwelyd ernes, nac am ba bris fyddai'r ernes yn cael ei osod.

Mae **cymal 51** ac **Atodlen 8** i'r Bil yn galluogi'r awdurdod cenedlaethol perthnasol (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) **wneud rheoliadau sy'n sefydlu cynlluniau dychwelyd ernes**. Mae rhannau (3) a (4) o'r cymal yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ar ran Cymru a Gogledd Iwerddon, yn amodol ar

eu cydsyniad (pwerau 'cydredol plws'). Maent yn caniatáu i reoliadau ddiffinio 'cyflenwyr cynllun' ernes, 'casglwyr cynlluniau' a 'gweinyddwyr cynlluniau' a gosod gofynion arnynt. Mae hefyd yn darparu ar gyfer **gwneud rheoliadau i orfodi cynllun dychwelyd ernes**. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi bod y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, ac eithrio o dan yr amgylchiadau canlynol lle byddai'r weithdrefn gadarnhaol yn gymwys:

- Mae'r rheoliadau'n sefydlu cynllun ernes am y tro cyntaf;
- Dyna'r rheoliadau cyntaf i ddarparu ar gyfer gorfodi cynllun ernes;
- Mae'r rheoliadau'n creu trosedd;
- Mae'r rheoliadau'n darparu ar gyfer cosbau sifil newydd; neu
- Mae'r rheoliadau'n cynyddu swm neu uchafswm dirwy neu gosb ariannol, neu'n newid y sail dros godi uchafswm dirwy neu gosb ariannol.

Yn ei phapur i'r Pwyllgor NHAMG mae'r Gweinidog yn amlinellu y parheir i gydweithio (gyda Lloegr a Gogledd Iwerddon) i ddatblygu cynllun dychwelyd ernes. Dywedodd fod paratodau'n cael eu gwneud ar gyfer ail ymgynghoriad ar ddyluniad manwl y cynllun a'r system a ffefrir ar gyfer y cynllun. Dywedodd nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn â'r llwybr ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau i ddeddfu ynghylch cynllun dychwelyd ernes.

Nid yw'r Bil yn amlinellu pa sefydliad fydd yn gyfrifol am y gwaith o reoli gweithrediad y cynllun dychwelyd ernes yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog yn dweud yn ei phapur y cafwyd trafodaethau ar lefel swyddogion ar rôl bosibl Cyfoeth Naturiol Cymru wrth reoleiddio cynllun dychwelyd ernes.

Cefndir

O dan gynllun dychwelyd ernes, codir swm o arian ar ddefnyddwyr fel blaendal ymlaen llaw pan fyddant yn prynu, er enghraifft, diod mewn cwpan untro. Gellir adennill y swm hwn pan ddychwelir y cwpan gwag. Mewn gwledydd eraill sydd â chynllun dychwelyd ernes, gall defnyddwyr naill ai ddychwelyd cynwysyddion trwy beiriant ailgylchu am arian, neu eu dychwelyd yn uniongyrchol i fanwerthwr.

Ym mis Chwefror 2019, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon **ar y cyd ar gynigion ar gyfer cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes** yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig ystod eang o gynwysyddion diodydd y gellid eu cynnwys mewn cynllun (gan gynnwys poteli plastig, caniau dur ac alwminiwm a photeli gwydr). Cynigiodd yr ymgynghoriad

hefyd lefel ernes o 15 ceiniog y cynhwysydd.

Ymatebodd Llywodraeth y DU i'r ymgynghoriad ar 23 Gorffennaf 2019, gan gyhoeddi **crynodedb o'r ymatebion**, a **chrynodedb gweithredol a'r camau nesaf**.

Mae dulliau fel cyflwyno cynllun dychwelyd ernes ar gyfer lleihau gwastraff plastig yn cefnogi **cynlluniau gweinidogol Cymru** i symud tuag at economi gylchol, lle na fydd cynhyrchion/deunydd pecynnu fyth yn wastraff, ond yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr economi. Yn ddiweddar, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei **strategaeth economi gylchol**, a daeth yr ymgynghoriad i ben ar 24 Ebrill. Mae'r strategaeth yn cynnwys cynigion ar gynlluniau dychwelyd ernes.

3.4. Codi ffi am eitemau plastig untro

Mae cymal 52 ac Atodlen 9 yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud ar gyfer codi ffi am eitemau plastig untro. Nid yw'n dweud ar ba lefel y byddai'r ffi yn cael ei phennu. Ni fyddai'r ffi am eitem blastig untro ond yn gymwys i'r eitemau sy'n bodloni'r diffiniad yn y Bil:

(2) The regulations may specify only items which-

(a) are single use items,

(b) are made wholly or partly of plastic, and

(c) are supplied in connection with goods or services.

(3) A 'single use item' is a manufactured item which is likely to be used only once, or used only for a short period of time, before being disposed of.

Mae Atodlen 9 yn darparu y gellid gwneud rheoliadau mewn perthynas â nifer o ddarpariaethau gan gynnwys ar gyfer:

- gosod gofyniad i godi ffi ar werthwyr nwyddau a gwasanaethau;
- swm y ffi;
- darparu cynllun gweinyddu a chofrestru ar gyfer y ffi;
- cadw cofnodion a chyhoeddi cofnodion;
- gorfodi'r ffi; a
- chosbau sifil am fethu â chydymffurfio â'r rheoliadau.

Byddai'r set gyntaf o reoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, fel yw'r achos â:

- rheoliadau sy'n gosod ffi ar eitem blastig untro newydd;
- rheoliadau sy'n darparu i ymddygiad fod yn destun cosb sifil (nad yw'n ddarostyngedig i gosb sifil o dan y rheoliadau presennol); a
- rheoliadau sy'n cynyddu swm neu uchafswm cosb ariannol (neu'n newid y sail ar gyfer codi swm neu uchafswm o'r fath).

Fel arall, byddai rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cydnabod bod materion amgylcheddol sylweddol yn codi yn sgil ymddygiadau amhriodol wrth ddefnyddio a gwaredu eitemau plastig untro fel cynwysyddion bwyd tecawê a chyllyll a ffyrc plastig.

Ym mis Mai 2019, gwnaeth Ysgrifennydd yr Amgylchedd ar y pryd, Michael Gove, **gadarnhau gwaharddiad ar wellt plastig, troellwyr diodydd, a ffyn cotwm â choesyn plastig** yn Lloegr o Ebrill 2020. Fodd bynnag, **mae'r gwaharddiad bellach wedi'i ohirio tan fis Hydref 2020** oherwydd pandemig y coronafeirws.

Ar 18 Mawrth, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad** i wahardd gwellt plastig, cyllyll a ffyrc plastig, a chyfarpar polystyren i ddal bwyd a diod. Bydd yn ymgynghori ar y cynigion yn ystod y misoedd nesaf; gyda chyfyngiadau i fod i ddod i rym yn hanner cyntaf 2021.

Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor NHAMG, meddai'r Gweinidog:

Mae'r gwaharddiad arfaethedig ar eitemau plastig untro'n canolbwyntio ar restr ddiffiniedig o eitemau a welir yn aml yn yr amgylchedd morol ledled yr Undeb Ewropeaidd, ac mae dewisiadau amgen di-blastig ar gael yn rhwydd yn eu lle. Bydd y pwerau hyn yn caniatáu i ni, os bydd angen, i godi tâl am eitemau plastig untro problemus eraill lle gallai gwaharddiadau llwyr neu gyfyngiad gwerthu fod yn llai ymarferol.

Bydd y gwaharddiad arfaethedig ar eitemau plastig untro penodol yn cael ei gyflwyno gan ddefnyddio'r pwerau deddfwriaethol presennol ac sydd yn adran 140 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, ond byddai cyflwyno unrhyw daliadau am eitemau plastig untro yn dibynnu ar bwerau sydd yn y Bil nad ydynt ar waith eto, sy'n golygu na ellir bwrw ymlaen â chodi tâl o'r fath ar yr un cyflymder.

O ran y potensial ar gyfer treth yn y dyfodol ar eitemau plastig untro, dywed y Gweinidog:

Mae swyddogion Trysorlys Cymru yn parhau i ddatblygu'r sylfaen

dystiolaeth mewn perthynas â threth neu godi tâl ar gwpanau plastig untro, yn benodol yr effaith bosibl ar fanwerthwyr. Pe bai treth - yn hytrach na thâl a godir – yn cael ei hystyried yn ffordd effeithiol o sbarduno newid ymddygiad cadarnhaol, yna byddai angen i Lywodraeth y DU gymeradwyo'r cynnig yn gyntaf drwy'r drefn y darperir ar ei chyfer o dan Ddeddf Cymru. Mae'n werth nodi bod y broses ar gyfer cyflwyno treth yn wahanol i'r pwerau i gyflwyno trefniadau codi tâl y darperir ar eu cyfer o dan Fil Amgylchedd y DU.

3.5. Orlhain Gwastraff Electronig

Mae **cymal 55** yn diwygio **Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990** i ganiatáu ar gyfer cyflwyno olrhain gwastraff electronig ym Mhrydain Fawr, a chreu troseddau a chosbau sifil cysylltiedig. Mae'n mewnosod adran 34CA newydd yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae'n creu **pwêr i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol wneud rheoliadau ynghylch olrhain gwastraff penodedig, gan gynnwys sefydlu system olrhain gwastraff electronig**. Gallai'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i reolwyr gwastraff ac awdurdodau rheoleiddio (Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru) sicrhau bod gwybodaeth benodol, megis sut mae gwastraff yn cael ei brosesu, ei drin neu ei symud, yn cael ei roi yn y system.

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch **gorfodi'r rheoliadau** trwy fewnosod adran newydd, 34CB yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae'n caniatáu i reoliadau gael eu gwneud i greu troseddau a chosbau sifil.

Byddai **cymal 55(4)** yn **caniatáu i'r awdurdodau rheoleiddio sefydlu cynlluniau codi ffi i adennill costau a ysgwyddwyd** wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan reoliadau olrhain gwastraff electronig newydd.

Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod rheoliadau o dan adrannau newydd 34CA a 34CB yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, ac eithrio'r sefyllfaoedd a bennir yn adran newydd 160A(2), lle mae'r weithdrefn gadarnhaol yn gymwys.

Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor NHAMG, mae'r Gweinidog yn nodi'r goblygiadau yn sgil peidio â bwrw ymlaen â'r darpariaethau ar olrhain gwastraff electronig. Dywedodd y byddai hyn yn golygu na fyddai Cymru yn gallu chwarae ei rhan yng ngwaith y DU i ddigideiddio prosesau olrhain gwastraff. Byddai hyn yn cynnwys: colli refeniw busnes i'r sector gwastraff safonol; colli Treth Tirlenwi trwy gamgyfrifo gwastraff; a chostau i'r sector cyhoeddus o glirio safleoedd gwastraff segur a gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon.

Cefndir

Ym mis Mehefin 2018, comisynodd Ysgrifennydd Defra ar y pryd, Michael Gove, adolygiad annibynnol i wneud argymhellion ar gyfer dull strategol o ymdrin â throeddau gwastraff. Mae troseddau gwastraff yn cynnwys troseddau fel osgoi talu'r dreth tirlenwi, allforio gwastraff yn anghyfreithlon a thipio anghyfreithlon.

Cyflwynwyd adroddiad ar yr adolygiad ym mis Tachwedd 2018. Un o argymhellion yr adolygiad oedd y dylid cyflwyno system olrhain gwastraff gorfodol yn electronig, a chronfa ddata genedlaethol o froceriaid cofrestredig, cyn gynted â phosibl.

Lansiwyd **Uned ar y Cyd ar gyfer Troseddau Gwastraff** ym mis Ionawr 2020. Mae'n cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA), Cyllid a Thollau EM a'r Asiantaeth Troseddu Genedlaethol a'r heddlu.

Ar hyn o bryd mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob busnes sy'n cynhyrchu neu'n trin gwastraff gwblhau disgrifiad ysgrifenedig o wastraff pan fyddant yn ei drosglwyddo i rywun arall.

3.6. Gwastraff Peryglus

Mae **cymal 57** o'r Bil yn diwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 trwy fewnosod adran 62ZA newydd. Mae'r adran hon **yn creu pŵer, i'w arfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol (mewn perthynas â Lloegr) neu Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch gwastraff peryglus**. Gall y rheoliadau hyn gynnwys:

- Gwahardd neu gyfyngu ar yr hyn y gellir ei wneud gyda gwastraff peryglus;
- Gosod gofynion ynghylch sut y gellir cadw gwastraff peryglus;
- Darparu ar gyfer rheoleiddio rheolwyr gwastraff peryglus;
- Darparu ar gyfer cadw ac archwilio cofnodion sy'n ymwneud â gwastraff peryglus (i'w harchwilio gan Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru);
- Yr amgylchiadau pan ddylid trin gwastraff nad yw'n wastraff peryglus fel rhywbeth peryglus at ddibenion y rheoliadau;
- Darparu ar gyfer goruchwylio gweithgareddau/rheolwyr gwastraff peryglus gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Darparu i Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru gadw cofnodion; a

- Darparu ar gyfer adennill treuliau/ffioedd am drin, cadw neu waredu gwastraff peryglus.

O ran gorfodi, gellir darparu mewn rheoliadau bod torri rheoliad gwastraff peryglus yn drosedd, gydag uchafswm cosb o ddwy flynedd o garchar.

Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod y rheoliadau o dan yr adran newydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, ac eithrio'r sefyllfaoedd a bennir yn adran newydd 160A(2), lle mae'r weithdrefn gadarnhaol yn berthnasol.

Cefndir

Mae cryn dipyn o gyfraith y DU ar wastraff peryglus yn deillio o gyfraith yr UE. Yn flaenorol, roedd adran 62 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 wedi rhoi pŵer i Lywodraeth y DU reoleiddio gwastraff peryglus trwy is-ddeddfwriaeth. Dirymwyd hyn ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2005 gan is-ddeddfwriaeth sy'n gweithredu'r **Cyfarwyddeb Gwastraff Peryglus yr UE (91/689/EEC)**.

Diffinnir gwastraff peryglus yn y Gyfarwyddeb fel gwastraff sy'n dangos un neu fwy o'r nodweddion peryglus a restrir yn Atodiad III o'r Gyfarwyddeb. Mae hyn yn cynnwys gwastraff sy'n ffrwydrol, yn gyrydol, yn llidus neu'n fflamadwy iawn. Mae **cymal 57(3)** o'r Bil yn diwygio'r diffiniad statudol o wastraff peryglus. Mae'r *Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus* wedi cael ei disodli gan y **Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff (2008/98/EC)**.

Sylweddau peryglus yw un o'r meysydd y nodwyd bod arnynt angen Fframwaith Cyffredin yn y **Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin**. Mae'r **broses a'r amserlenni ar gyfer cyflwyno a chraffu ar Fframweithiau Cyffredin yn dal i gael eu datblygu a'u cytuno**

3.7. Cludiant gwastraff trawsffiniol

Mae'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â chludo gwastraff ar draws y ffin yn gymwys yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi nad oes angen cydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd ar gyfer y darpariaethau. Mae 'gwahardd a rheoleiddio mewnforion ac allforion' yn fater wedi'i gadw nôl ym mharagraff 71 o Atodlen 7A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, felly nid yw hyn o fewn cymhwysedd y Senedd. Nid yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn crybwyll y darpariaethau.

Mae **cymal 59** yn diwygio Adran 141 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau i wahardd neu gyfyngu ar fewnforion ac allforion gwastraff. Mae **cymal 59** yn diwygio adran 141 i **ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i reoleiddio mewnforion neu allforion gwastraff neu drosglwyddo gwastraff i'w allforio**. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau neu wahardd neu gyfyngu ar:

- Mewnforio gwastraff;
- Glanio a dadlwytho gwastraff yn y DU;
- Allforio gwastraff;
- Llwytho gwastraff i'w allforio; a
- Trosglwyddo gwastraff i'w allforio.

Mae'r Nodiadau Esboniadol yn amlinellu manylion pellach am y darpariaethau, ac yn nodi'r hyn y maent yn ei olygu i Gymru. Mae'r diwygiadau i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd yn caniatáu i'r rheoliadau:

- Gyflwyno swyddogaethau i Cyfoeth Naturiol Cymru (a'r cyrff perthnasol mewn rhannau eraill o'r DU), gan gynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud â gorfodi'r rheoliadau;
- Rhoi cyfarwyddyd i Cyfoeth Naturiol Cymru (a'r cyrff perthnasol mewn rhannau eraill o'r DU) ar sut y maent yn arfer eu swyddogaethau wrth reoleiddio mewnforion gwastraff, a throsglwyddo gwastraff i'w allforio;
- Cynnwys darpariaethau ynghylch ffioedd i'w talu i Cyfoeth Naturiol Cymru (a'r cyrff perthnasol eraill); a
- Caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru (a'r cyrff perthnasol eraill) ddefnyddio ffioedd i dalu'r costau y maent wedi'u hysgwyo wrth reoleiddio mewnforion gwastraff a throsglwyddo gwastraff i'w allforio.

Ym mis Ionawr 2020 mewn **datganiad gweinidogol ar achlysur cyhoeddi'r Bil**, dywedodd Llywodraeth y DU ei bod yn bwriadu defnyddio'r rheoliad hwn gan wneud pŵer i 'wahardd' allforio gwastraff plastig i wledydd nad ydynt yn rhan o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Dywedodd y byddai'n ymgynghori â'r diwydiant, cyrff anllywodraethol a chynghorau lleol ar y dyddiad y dylid cyflawni hyn.

Cefndir

Mae tair cyfundrefn yn llywodraethu masnach ryngwladol y DU ym maes gwastraff:

- Mae **Confensiwn Basel** yn cynnwys symud gwastraff peryglus yn rhyngwladol;
- Mae **Rheolau Penderfynu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd** yn cwmpasu masnach mewn gwastraff sy'n cael ei allforio i'w adfer rhwng gwledydd yr OECD. Rhennir y rhain yn ddwy restr. Mae'r 'Rhestr Werdd' yn wastraff sydd â risg isel i iechyd pobl a'r amgylchedd, sy'n destun rheolaethau amgylcheddol sydd ond angen ymyrraeth ysgafn. Mae'r 'Rhestr Ambr' yn wastraff sy'n peri risg ddigonol i gyfiawnhau mwy o ymyrraeth; ac
- Mae **Rheoliadau Cludo Gwastraff yr UE** yn gweithredu Confensiwn Basel a Rheolau Penderfynu'r OECD ar gyfer Aelod-wladwriaethau. Mae'r cytundebau rhyngwladol hyn yn nodi'r gweithdrefnau a'r prosesau sy'n rheoli arferion cludo gwastraff i'r UE, o fewn yr UE ac allan o'r UE.

Ar hyn o bryd mae cludiant gwastraff yn cael ei reoleiddio gan **Reoliad yr UE 1013/2006**, wedi'i weithredu ymhellach yn y DU gan **Reoliadau Cludo Gwastraff Trawsffiniol 2007**. Mae'r rheoliadau olaf yn nodi troseddau a chosbau ac yn dynodi'r awdurdodau cymwys ar gyfer gorfodi rheoliadau cludo gwastraff yr UE ar gyfer y DU. Byddai'r Bil yn diwygio pwerau presennol Llywodraeth y DU o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i ganiatáu i reoliadau 2007 gael eu diwygio.

3.8. Rheoliadau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

Mae **cymal 60** yn diwygio *Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990* yn ymwneud â gweithdrefnau ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn y Ddeddf. Dywed y Memorandwm Cydsyniad Ddeddfwriaethol fod hyn yn cydgrynhoi'r amrywiol ddarpariaethau newydd a fewnosodwyd yn y Ddeddf gan y Bil hwn.

3.9. Pwerau i greu cynlluniau codi ffioedd

Mae **cymal 61** yn diwygio adrannau 41 a 56 o *Ddeddf yr Amgylchedd 1995* i fewnosod pwerau ychwanegol sy'n caniatáu i Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru ac (mewn rhai achosion) Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban **i wneud cynlluniau codi ffioedd i adennill eu costau gorfodi**. Byddai hyn, ymhlith pethau eraill, yn caniatáu codi ffioedd ar weithredwyr safleoedd am ymyriadau mewn safleoedd gwastraff nas caniateir neu'r rheini sy'n torri trwydded.

Mae **cymal 61(2)** yn gwneud **darpariaeth i greu cynlluniau codi ffioedd mewn perthynas â chynlluniau cyfrifoldeb cynhyrchwyr**. Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r rheolydd amgylcheddol ar gyfer cynlluniau cydymffurfio cynhyrchwyr yng Nghymru. Gall rheoleiddwyr amgylcheddol eisoes godi ffioedd cynhyrchwyr am y cynlluniau cyfredol y maent yn eu rheoleiddio. Nod y pwerau newydd i

godi ffioedd yw gwneud y ffioedd a godir yn fwy cyson ar draws y cynlluniau cyfrifoldeb cynhyrchwyr cyfredol, ac unrhyw gynlluniau yn y dyfodol. Byddai'n gwneud hyn trwy ddod â'r holl bwerau codi ffioedd o dan adran 41 o *Ddeddf yr Amgylchedd 1995*. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor NHAMG, dywed y Gweinidog, heb y pwerau yn y Bil, os mai Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r rheolydd penodedig ar gyfer cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr, ni fydd yn gallu rhoi cynlluniau codi ffi priodol ar waith.

3.10. Pwerau gorfodi ar gyfer troseddau gwastraff

Mae **cymal 63** ac **Atodlen 10** yn **diwygio deddfwriaeth ynghylch pwerau gorfodi mewn perthynas â gwastraff a materion amgylcheddol eraill**.

Canfu **Adolygiad Annibynnol y DU o Droseddau Gwastraff Difrifol a Threfnedig** (Tachwedd 2018) fod y pŵer ar hyn o bryd i'r heddlu atafaelu cerbydau sy'n ymwneud â throseddau gwastraff yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog Asiantaeth (Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru) fod yn bresennol, gydag arian cyhoeddus yn talu am adfer y cerbyd. Argymhellodd yr adolygiad y dylai Defra ddiweddarau darpariaethau atafaelu cerbydau i ganiatáu i'r heddlu atafaelu cerbyd heb ei gwneud yn ofynnol i swyddog gorfodaeth Asiantaeth fod yn bresennol, a'i gwneud yn ofynnol i'r troseddwr dalu costau storio ac adfer eu cerbyd.

Mae **paragraffau 4-6 o Atodlen 10** yn diwygio adran 108 o *Ddeddf yr Amgylchedd 1995* i roi'r pwerau ychwanegol a ganlyn i berson awdurdodedig, sydd â'r pŵer i fynd i mewn i'r fangre ar gyfer archwiliad neu ymchwiliad o dan adran 108(4)(c):

- I chwilio'r adeilad;
- I atafaelu a chael gwared ar dystiolaeth ddogfennol neu dystiolaeth arall;
- I'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth electronig gael ei chynhyrchu ar ffurf sy'n ei galluogi i gael ei dileu neu ei chynhyrchu fel dystiolaeth ddogfennol; a
- I ddefnyddio offer a ganfyddir yn yr adeilad er mwyn cyrchu gwybodaeth.

Yn y cyd-destun hwn, ystyr personau awdurdodedig yw'r sawl a awdurdodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, neu awdurdod casglu gwastraff neu awdurdod gorfodi lleol.

3.11. Gorfodi ym maes sbwriel

Mae **cymal 65** yn diwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 sy'n ymdrin â swyddogaeth orfodi awdurdodau sbwriel, a'u swyddogion awdurdodedig. Byddai'r Bil yn mewnosod adran 88B newydd yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, **gan alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau sbwriel ynghylch eu swyddogaethau gorfodi ganddynt hwy a'u swyddogion**. Byddai hyn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau sbwriel i 'roi ystyriaeth' i'r canllawiau. Byddai'r canllawiau'n destun ymgynghoriad, gyda'r Nodiadau Esboniadol yn dweud bod y sawl yr ystyrir eu bod yn briodol ymgynghori â hwy yn cynnwys awdurdodau sbwriel, swyddogion awdurdodedig a'r cyhoedd.

Gall cwmpas y canllawiau gynnwys swyddogaethau gorfodi sy'n ymwneud â gadael sbwriel, taflu sbwriel o gerbydau a dosbarthu deunyddiau printiedig am ddim ar dir dynodedig. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys:

- Pennu lefelau cosb sefydlog;
- Awdurdodi swyddogion gorfodi;
- Cyhoeddi hysbysiadau cosb;
- Casglu a phrosesu taliadau;
- Cychwyn erlyniadau a mynd ar drywydd erlyniadau; a
- Dynodi tir (mewn perthynas â dosbarthu deunyddiau printiedig am ddim).

Mae **cymal 65** hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod sbwriel ddirymu awdurdodiad swyddog os yw'r swyddog yn methu â bodloni'r amodau a nodir. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod y pwerau newydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Mae'r cymal hwn hefyd yn rhoi pwerau gwneud canllawiau i Weinidogion Cymru. Dywed y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol nad oes gweithdrefn ar gyfer gwneud unrhyw ganllawiau o dan y pwerau hyn.

3.12. Hysbysiadau cosb benodedig

Mae **cymal 66** o'r Bil yn diwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i **ganiatáu amrywio lefel yr hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer dyddodi, trin neu waredu gwastraff heb awdurdod neu mewn modd niweidiol**. Byddai'r diwygiad hefyd yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru ddiwygio, drwy reoliadau, yr uchafswm cosb, y lleiafswm cosb, y gosb ddiodyn a chost ostyngedig a bennir yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae'r

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod y pwerau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol (yn unol ag adran 160A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990). Dywed y Gweinidog na fyddai Gweinidogion Cymru, heb gymal 66, yn gallu diwygio cosbau presennol ar gyfer hysbysiadau cosb penodedig yn ymwneud â thipio anghyfreithlon a dyletswydd gofal deiliad tŷ.

3.13. Rheoleiddio gweithgareddau llygru

Mae adran 2 o **Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999** yn darparu'r pŵer i wneud rheoliadau i reoleiddio gweithgareddau llygru. Mae **Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016** (a wneir o dan adran 2) yn nodi pa gyfleusterau rheoledig sydd angen trwyddedau amgylcheddol. Maent hefyd yn nodi amodau penodol y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i gyfleusterau neu weithgareddau â risg is gael eu heithrio o'r gofyniad i gael trwydded amgylcheddol.

Mae **cymal 67** o'r Bil yn gwneud diwygiad i Ddeddf 1999. Nod hyn yw caniatáu i Asiantaeth yr Amgylchedd a/neu Cyfoeth Naturiol Cymru osod amodau ar gyfer gweithgareddau a chyfleusterau nad oes angen cydsyniad arnynt. Ar hyn o bryd, mae gosod rheoliadau o'r fath yn gofyn am reoliadau newydd.

Dywed y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol fod y swyddogaethau o dan *Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999* yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, felly mae'r gwelliant newydd hwn hefyd yn ehangu cwmpas pwerau Gweinidogion Cymru.

Tystiolaeth rhanddeiliaid a chasgliadau'r Pwyllgor NHAMG

Ar y cyfan, cefnogwyd y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â gwastraff ac effeithlonrwydd ynni, gan gynnwys y darpariaethau ynghylch y cynllun Dychwelyd Ernes a'r ffioedd am eitemau plastig untro. O ran y ffioedd am eitemau plastig untro, awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid estyn y pŵer codi ffioedd y tu hwnt i blastigau gan gynnwys deunyddiau eraill.

Gwnaeth y Pwyllgor bum argymhelliad yn y maes hwn:

Argymhelliad 7: Dylai'r Gweinidog ymrwymo y dylai Cynllun Dychwelyd Ernes Llywodraeth Cymru gwmpasu'r amrywiaeth ehangaf o gynwysyddion fel na roddir unrhyw gyfyngiadau ar faint na math y cynwysyddion sy'n gymwys ar gyfer y cynllun.

Argymhelliad 8: Dylai'r Gweinidog roi gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor am y gwaith sy'n cael ei wneud i asesu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer treth neu dâl ar eitemau plastig untro.

Argymhelliad 9: Dylai'r Gweinidog roi amserlen ar gyfer cyflwyno cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a Chynllun Dychwelyd Ernes a mesurau mewn perthynas â phlastigau untro.

Argymhelliad 10: Dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd y darpariaethau yn y Bil yn cael eu defnyddio i weithredu'r cynigion yn ymgynghoriad "Mwy nag Ailgylchu" Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dull ar gyfer lleihau gwastraff a llygredd plastig yn seiliedig ar y model a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dylai'r dull gynnwys targed cyffredinol, targedau dros dro a gofynion adrodd.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion 7, 8, 9, 10 ac 11.

O ran argymhelliad 7, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i ddatblygu cynigion i fod yn sail ar gyfer ymgynghoriad pellach, er mwyn helpu â dyluniad terfynol y cynllun Dychwelyd Ernes. Disgwylir cyhoeddi'r ymgynghoriad yn 2021 – a dywedodd y Gweinidog y bydd yr ymgynghoriad yn nodi maint y cynwysyddion a'r mathau o ddeunydd a gaiff eu cynnwys yn y cynllun Dychwelyd Ernes. Cytunodd y Gweinidog ag argymhellion y Pwyllgor y dylai'r cynllun gynnwys ystod eang o ddeunyddiau a meintiau poteli.

O ran argymhelliad 8, dywedodd y Gweinidog fod COVID-19 wedi arwain at rai pryderon ynghylch diogelwch ailddefnyddio deunyddiau. Dywedodd y bydd angen cydbwysedd rhwng pryderon hylendid y cyhoedd a'r nod hirdymor o roi terfyn ar blastigau untro diangen, ac y bydd y nod yn y pen draw yn canolbwyntio ar yr ymdrechion hirdymor i ddiogelu'r amgylchedd. Meddai:

Byddai angen mynd ati'n ofalus i gydgysylltu unrhyw fesur treth neu ffi a godir ar gwpanau untro â mentrau ehangach er mwyn sicrhau bod y newidiadau ymddygiadol bwriadedig yn cael eu hannog heb fod hynny'n rhoi baich gormodol ar fusnesau. Mae hyn yn cynnwys Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, y Cynllun Dychwelyd Ernes, gwaharddiadau ar eitemau plastig untro penodol sydd ar y gweill (a fydd yn cynnwys cwpanau polystyren ymledol ac allwthiol), yn ogystal â chynigion Llywodraeth y DU ar gyfer treth pecynnu plastig. Disgwylir ymgynghoriadau pellach ar y meysydd hyn yn fuan. Bydd yn bwysig ystyried y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r ymarferion hyn.

O ran amserlenni'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, y cynllun Dychwelyd Ernes a'r mesurau plastigau untro (argymhelliad 9), dywedodd y Gweinidog fod hyn yn ddibynnol ar y Bil yn cael ei basio gan Senedd y DU (disgwylir hyn ym mis Tachwedd 2020). O ran y Cynllun Dychwelyd Ernes a chyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr, disgwylir cyhoeddi'r ymgynghoriad nesaf ddechrau 2021.

O ran argymhelliad 10, dywedodd y Gweinidog fod y Bil yn darparu pwerau a fydd yn golygu y gellir gweithredu camau allweddol a amlinellir yn yr ymgynghoriad Mwy nag Ailgylchu.

O ran argymhelliad 11, dywedodd y Gweinidog, er y bwriedir gweithredu'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a'r Cynllun Dychwelyd Ernes ledled y DU, bydd adroddiadau ar y deunyddiau a geir a'r cyfraddau ailgylchu yn cael eu llunio fesul gwlad unigol. Ceir manylion pellach ar y ffordd y bydd targedau statudol yn gweithio yn yr ail ymgynghoriad ar y ddau gynllun ddechrau 2021.

3.14. Gwaith y Pwyllgor NHAMG ar wastraff

Yn 2019, cynhaliodd y Pwyllgor NHAMG **ymchwiliad byr i lygredd plastig a gwastraff deunydd pecynnu**. Roedd yr ymchwiliad yn canolbwyntio'n bennaf ar ficroblastigau, ond gwnaeth nifer o argymhellion sy'n berthnasol i'r darpariaethau yn y Bil, gan gynnwys:

- Dylai Llywodraeth Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth deng mlynedd, gynhwysfawr ac uchelgeisiol gyda'r nod o leihau llygredd plastig. Dylid datblygu'r strategaeth gyda'r rhanddeiliaid a dylai gynnwys targedau a cherrig milltir. Rhaid iddi wneud cysylltiadau clir â meysydd polisi eraill, fel rheoli gwastraff a chaffael "gwyrdd";
- Ni waeth beth yw canlyniadau'r **ymgyngoriad ar y cyd â DEFRA** ac unrhyw benderfyniadau dilynol gan Lywodraeth y DU, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynllun cynhwysfawr ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yng Nghymru; a
- Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes sy'n berthnasol i'r amrywiaeth ehangaf o gynwysyddion, fel na roddir unrhyw gyfyngiadau ar faint y cynwysyddion sy'n gymwys ar gyfer y cynllun. Os bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu cyflwyno cynllun sydd â chwmpas llai, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ar gynllun penodol i Gymru, gyda Chynllun Dychwelyd Ernes sydd â'r cwmpas ehangaf fel yr opsiwn a ffefrir ac a argymhellir.

3.15. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: 'Mwy nag Ailgylchu'

Yn ddiweddar, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei strategaeth economi gylchol, **Mwy nag Ailgylchu**. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 24 Ebrill 2020, ac mae'r ymatebion wrthi'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae'r strategaeth yn cynnig wyth prif gam gweithredu:

- I Gymru arwain y byd o ran ailgylchu;

- Cael gwared ar blastig untro yn raddol, gyda'r nod i 'wneud Cymru'r wlad gyntaf i beidio ag anfon plastig i safleoedd tirlenwi'. Mae'r cynlluniau'n cynnwys cyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio, Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd, a gosod gwaharddiadau neu gyfyngiadau i gael gwared yn raddol ar y defnydd o blastig untro diangen sy'n aml yn cael ei daflu'n sbwriel;
- Buddsoddi mewn technoleg lân er mwyn casglu deunyddiau, drwy gyflwyno cerbydau heb allyriadau a'r seilwaith cysylltiedig;
- Gwneud defnydd mwy effeithlon o'n bwyd drwy waredu gwastraff bwyd y gellir ei osgoi;
- Blaenoriaethu prynu pren, a chynnyrch sydd wedi'i ailweithgynhyrchu a'i ailgylchu ymhlith y nwyddau y mae'r sector cyhoeddus yn eu caffael;
- Galluogi cymunedau i weithredu ar y cyd;
- Creu'r amodau i fusnesau achub ar gyfleoedd i leihau ei ôl troed carbon a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon; ac
- Ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff, i sicrhau nad ydym yn allforio gwastraff i fod yn broblem yn rhywle arall.

Yn ei phapur i'r Pwyllgor NHAMG, mae'r Gweinidog yn amlinellu y byddai'r pwerau yn y Bil yn cael eu defnyddio i gyflwyno llawer o'r ymrwymadau a'r uchelgeisiau a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Mae hi'n nodi mai bwriad Llywodraeth Cymru yw cyhoeddi'r strategaeth derfynol yn ddiweddarach yn 2020. Mae hi hefyd yn dweud bod y Bil yn rhan ehangach o gyflwyno'r camau a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

4. Rhan 4 - Ansawdd Aer

Mae Rhan 4 o'r Bil yn amlinellu darpariaethau ar ansawdd aer ac adalwad amgylcheddol ar gyfer cerbydau modur.

4.1. Ansawdd Aer Lleol

Mae cymal 69 o'r Bil yn cyflwyno Atodlen 11 sy'n gwneud diwygiadau i *Ddeddf yr Amgylchedd 1995* yn ymwneud ag ansawdd aer. Mae **Atodlen 11** yn cyflwyno darpariaethau (sy'n ymwneud â Chymru) a fyddai'n dileu is-adran (3) o adran 80 o *Ddeddf yr Amgylchedd 1995*. Dyma'r gofyniad i'r Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol gwmpasu Prydain Fawr gyfan. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod yr hepgoriad hwn yn golygu:

... nid oes unrhyw amheuaeth mai Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am strategaeth genedlaethol ar ansawdd aer mewn perthynas â Chymru, ac mae hefyd yn adlewyrchiad mwy cywir o'r sefyllfa bresennol a natur ddatganoledig y rôl hon.

Mae paragraff 2(3) o Atodlen 11 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â'r adolygiad o'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol.

Cefndir

Mae ansawdd aer yn faes wedi'i ddatganoli ac mae deddfwriaeth helaeth ynglŷn ag ansawdd aer yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys nifer o Gyfarwyddebau'r UE, Deddfau'r DU a deddfwriaeth Cymru sy'n darparu fframwaith ar gyfer Strategaeth Ansawdd Aer y DU a Rheolaeth Ansawdd Aer Lleol yng Nghymru:

- **Cyfarwyddeb 2008/50/EC** ar ansawdd aer amgylchynol ac aer glanach i Ewrop (CAFE): yn disodli pum deddf flaenorol gan gynnwys terfynau nitrogen deuocsid a deunydd gronynnol;
- **Cyfarwyddeb 2004/107/EC:** (y 4ydd Epil Gyfarwyddeb): yn creu targedau ar gyfer dwysedd arsenig, cadmiwm, nicel a benzo(a)pyren mewn aer amgylchynol. Y nod yw osgoi, atal neu leihau effeithiau niweidiol y sylweddau hyn ar iechyd pobl a'r amgylchedd;
- Mae **Deddf yr Amgylchedd 1995** yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer;
- **Deddf Aer Glân 1993:** yn anelu at amddiffyn iechyd y cyhoedd rhag allyriadau mwg;
- **Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010:** yn dod â therfynau a nodir

yng Nghyfarwyddebau'r UE ar ansawdd aer (Tabl 1 isod) i gyfraith Cymru; a

- **Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000**, fel y'i diwygiwyd gan **Reoliadau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2002**: yn dod â chyfarwyddebau cynharach yr UE i gyfraith Cymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **ymgyngoriad ar Gynllun Aer Glân i Gymru** ar 10 Rhagfyr 2019. Mae'r cynllun yn nodi rhaglen waith ar draws pedair thema, sef:

- Gwella ansawdd aer er mwyn diogelu iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol
- Gwella ansawdd aer i gefnogi ein hamgylchedd naturiol, ein hecosystemau a'n bioamrywiaeth
- Gwella ansawdd aer i gefnogi Cymru lewyrchus
- Gwella ansawdd aer i gefnogi mannau cynaliadwy.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar amrywiaeth o ymrwymadau presennol a chamau gweithredu newydd arfaethedig, gan gynnwys:

- Cynyddu arferion monitro ansawdd aer y tu allan i fannau fel ysgolion ac ysbytai i amddiffyn grwpiau agored i niwed rhag allyriadau trafndiaeth;
- Buddsoddi £60 miliwn yn ychwanegol dros 3 blynedd i roi'r Ddeddf Teithio Llesol ar waith, sy'n golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â chymunedau a datblygu rhwydwaith diogel ar gyfer cerdded a beicio;
- Ymchwilio i fesurau sydd â'r nod o leihau defnydd o gerbydau personol, fel prisio ffyrdd, Parthau Aer Glân a/neu Barthau Allyriadau Isel; a
- Chynyddu cyfran y cerbydau trydan â'r rhai sydd ag allyriadau hynod isel.

Mae hefyd yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Papur Gwyn yn ystod tymor y Senedd hon ar Ddeddf Aer Glân i Gymru. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 10 Mawrth 2020. Yn ei phapur i'r Pwyllgor NHAMG, mae'r Gweinidog yn amlinellu pam, er gwaethaf ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, fod darpariaethau ansawdd aer ar gyfer Cymru ym Mil y DU. Dywed mai'r rhesymeg dros ddefnyddio Bil Amgylchedd y DU yw sicrhau buddion i weithgynhyrchwyr a defnyddwyr cyn gynted â phosibl – tra bod Llywodraeth Cymru yn datblygu ei chynigion o fewn ei Chynllun Aer Glân.

Ym mis Mehefin 2019 cyhoeddodd Ymchwil y Senedd **bapur briffio ar ansawdd aer** sy'n darparu cefndir defnyddiol ac yn rhoi manylion y drefn rheoli ansawdd aer gyfredol yng Nghymru.

Mae *Deddf yr Amgylchedd 1995* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol lunio strategaeth ansawdd aer genedlaethol (sy'n cynnwys Prydain Fawr gyfan). Rhaid i'r strategaeth gynnwys safonau, amcanion a mesurau ar gyfer gwella ansawdd aer amgylchynol (awyr agored). Lluniwyd y strategaeth ddiweddaraf yn 2007 – **Strategaeth Ansawdd Aer Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon**. Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu'r drefn o ran Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol.

4.2. Ardaloedd Rheoli Mwg

Mae **cymal 70** o'r Bil yn cyflwyno **Atodlen 12**, sy'n gwneud amryw o ddiwygiadau i *Deddf Aer Glân 1993* mewn perthynas ag ardaloedd rheoli mwg. Mae **Rhan 2 o Atodlen 12** yn diwygio Adrannau 20 a 21 o *Ddeddf Aer Glân 1993* mewn perthynas â Chymru, **i ganiatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o'r mathau o danwydd awdurdodedig a lleoedd tân eithriedig i'w defnyddio mewn ardaloedd rheoli mwg**. O dan y trefniadau cyfredol, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau a gorchmynion at y diben hwn yn flynyddol. **Dywed y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mai bwriad y newidiadau yw gwneud y broses o ddynodi tanwydd awdurdodedig a lleoedd tân eithriedig i'w gwerthu mewn ardaloedd rheoli mwg yn fwy effeithlon ac yn llai dwys o ran defnyddio adnoddau**. Byddai hyn yn sicrhau bod Cymru yn cyd-fynd â Lloegr a'r Alban. Mae'r bwriad hwn i ddiwygio deddfwriaeth i ganiatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr ar-lein o fathau o danwydd ac offer, gan symud i ffwrdd o'r dull o ddiweddarau trwy Offerynnau Statudol hefyd wedi'i amlinellu yn ymgynghoriad Cynllun Aer Glân Cymru.

Cefndir

Mae *Deddf Aer Glân 1993* yn ymdrin â dynodiad (gan awdurdodau lleol) 'ardaloedd rheoli mwg', hynny yw ardaloedd lle mae allyriadau mwg o simnai unrhyw adeilad yn drosedd oni bai fod yr allyriad o 'danwydd awdurdodedig' neu 'ddosbarth eithriedig' o le tân. Mae'r deddfwriaeth yn targedu allyriadau mwg o simneiau ac adeiladau, allyriadau mwg o ffwrneisi dibreswyl, a llosgi tanwydd yn y cartref. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i awdurdodi'r mathau o danwydd, ac eithrio'r dosbarthiadau o leoedd tân, y gellir eu defnyddio mewn ardaloedd rheoli mwg. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan y Ddeddf hon hefyd i gyfarwyddo awdurdod lleol i fesur a chofnodi lefelau llygredd aer.

4.3. Adalw cerbydau modur ar sail amgylcheddol

Mae cymalau 71-74 o'r Bil yn ymdrin ag adalw cerbydau modur ar sail

amgylcheddol. Maent yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, gyflwyno adalwad gorfodol i unrhyw gerbyd sy'n methu â chyrraedd 'safonau amgylcheddol' penodol.

Noda'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil fod y darpariaethau hyn yn ymestyn i Gymru a Lloegr – ond nid oes angen cydsyniad deddfwriaethol arnynt gan eu bod mewn maes heb ei ddatganoli. Nid yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cyfeirio at y darpariaethau.

Cefndir

Mae lefelau nitrogen deuocsid y DU mewn rhai ardaloedd wedi torri terfynau cyfreithiol Ewrop. Ym mis Chwefror 2018, **mewn achos a ddygwyd gan y grŵp amgylcheddol ClientEarth**, dyfarnodd yr Uchel Lys fod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyrraedd targedau'r Undeb Ewropeaidd i leihau llygredd aer. Gosododd y dyfarniad yn yr achos, a oedd hefyd yn cynnwys Llywodraeth y Deyrnas Unedig, rwymedigaeth gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i ddrafftio cynllun erbyn diwedd mis Ebrill 2018, a chael cynllun terfynol ar waith erbyn 31 Gorffennaf 2018, i wella ansawdd aer ledled Cymru yn unol â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, ym mis Gorffennaf 2018, fe wnaeth Llywodraeth Cymru **gais i'r Uchel Lys am estyniad, a ganiatawyd**. Ar 25 Ebrill 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr **ymgyngoriad ar ei chynllun atodol i gynllun y Deyrnas Unedig ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau nitrogen deuocsid (NO₂) ar ochr y ffordd**. Roedd yr Uchel Lys wedi dyfarnu nad oedd adran flaenorol y cynllun a oedd yn berthnasol i Gymru yn bodloni gofynion yr Undeb Ewropeaidd, a bod rheoli rhagori ar NO₂ ar y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd yn gyfrifoldeb uniongyrchol ar Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd **cynllun atodol Llywodraeth Cymru i gynllun y Deyrnas Unedig ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau nitrogen deuocsid ar ochr y ffordd** ym mis Tachwedd 2018.

Ar 24 Ebrill 2018, darparodd Gweinidog yr Amgylchedd ar y pryd **Ddatganiad Llafar i Aelodau'r Cynulliad yn amlinellu cynllun Llywodraeth Cymru i leihau llygredd aer yng Nghymru**. Roedd y datganiad yn cynnwys cyhoeddiad y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cyfyngiadau cyflymder 50mya ar rai rhannau o'r rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd er mwyn gwella ansawdd aer.

Tystiolaeth rhanddeiliaid a chasgliadau'r Pwyllgor NHAMG

Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r diwygiadau i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ar lefel y DU fel ffordd o ddarparu eglurder mai Llywodraeth Cymru yn unig sy'n gyfrifol am gyhoeddi strategaeth ansawdd aer i Gymru. Roedd y rhanddeiliaid hefyd yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol cynnwys sawl un o'r darpariaethau ar gyfer

Lloegr mewn Bil Aer Glân ar gyfer Cymru. Gwnaeth y Pwyllgor un argymhelliad yn ymwneud ag ansawdd aer:

Argymhelliad 12: Dylai'r Gweinidog egluro amserlenni arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y papur gwyn ar y Bil Aer Glân ac ar gyfer cyflwyno'r system restrau sy'n deillio o Ran o Atodlen 12 o Fil y DU.

O ran argymhelliad 12, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu lansio a chwblhau ymgynghoriad Papur Gwyn ar y cynigion am Fil Aer Glân ar gyfer Cymru o fewn tymor cyfredol y Senedd. At hynny, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi rhestrau o'r tanwyddau a gymeradwyir a'r dosbarthau esempt ar leoedd tân o fewn chwe mis i'r Bil ddod i rym.

5. Rhan 5 - Dŵr

Mae **Rhan 5** o'r Bil yn ymwneud â dŵr. Mae'n cynnwys:

- Adnoddau dŵr;
- Ansawdd dŵr;
- Rheoleiddio cwmnïau dŵr a charthffosiaeth; a
- Prasio tir mewn ardaloedd draenio mewnol.

I bob un ond y cymalau ar ansawdd dŵr, ymgynghorodd Llywodraeth y DU (trwy Defra) ar sylwedd y newidiadau yn ei hymgyngoriad ar **wella rheolaeth dŵr yn yr amgylchedd, rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2019**. Cyhoeddwyd **ymateb Llywodraeth y DU** a chrynodeb o'r ymatebion ym mis Gorffennaf.

Ac eithrio rhai materion trawsffiniol, mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â Lloegr. Nid yw Ymchwil y Senedd yn ymwybodol o ymgynghoriad cyfatebol gan Lywodraeth Cymru ar y materion hyn.

Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor NHAMG, mae'r Gweinidog yn amlinellu'r goblygiadau posibl os na chyflwynir y darpariaethau yn y Bil. Dywed:

Heb y pwerau mewn perthynas â dŵr, bydd gallu Gweinidogion Cymru i weithredu'n unol â'r ymrwymïadau yn y Strategaeth Ddŵr i Gymru, Llywodraeth Cymru a symud tuag at ddull ataliol yn cael ei gyfaddawdu.

Dywed y Gweinidog hefyd nad oes gan Lywodraeth Cymru amserlen ar gyfer defnyddio'r pwerau a nodir yn y Bil, ac y bydd yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar yr holl reoliadau arfaethedig.

5.1. Cynlluniau rheoli adnoddau dŵr, cynlluniau sychder, a chynigion ar y cyd

Mae **cymal 75** yn mewnosod adrannau newydd yn *Neddf y Diwydiant Dŵr 1991* i roi pŵer i Weinidogion Cymru yng Nghymru (a'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr) **i roi cyfarwyddyd bod cwmnïau dŵr yn paratoi ac yn cyhoeddi cynigion ar y cyd** (Adran 39E newydd). Diffinnir cynnig ar y cyd yn y Bil fel un sy'n 'nodi mesurau y gall cwmnïau eu cymryd ar y cyd at ddibenion gwella rheolaeth a datblygiad adnoddau dŵr'. Byddai cynnig ar y cyd ar wahân i'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr y mae'n ofynnol i bob cwmni ei baratoi.

Mae'r **Nodiadau Esboniadol** yn nodi bod y cyfarwyddydau yn 'debygol o ofyn

am fynd i'r afael â materion sy'n newid yn ôl amser a lleoliad, er enghraifft, rhagamcanion poblogaeth, newid yn yr hinsawdd neu sychder'.

Mae'r adrannau newydd yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru yng Nghymru (a'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr) i **wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn mewn perthynas â Chynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr, cynlluniau sychder a chynigion ar y cyd**. Byddai'r rheoliadau hyn yn cael eu gwneud drwy'r weithdrefn negyddol. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi ei bod yn 'debygol' y byddai'r gofynion gweithdrefnol yn cynnwys gofynion tebyg i'r rheoliadau presennol ar gyfer Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a chynlluniau sychder. Nodir sawl mater y gall Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol eu cynnwys yn y rheoliadau, megis gofynion ynghylch rhannu gwybodaeth a sut y dylai cwmnïau dŵr ymgynghori â chyrff eraill.

Mae papur y Gweinidog yn nodi nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pŵer hwn. Mae hi hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod cwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr eisoes wedi ymrwymo i baratoi cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff ar lefel anstatudol erbyn 2022.

Byddai **cymal 75 hefyd yn diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 i hepgor rhai gofynion gweithdrefnol yn ymwneud â pharatoi ac adolygu Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr o'r ddeddfwriaeth sylfaenol**. Byddai'r gofynion hyn yn cael eu nodi yn y rheoliadau.

Mae'r **Memorandwm Pwerau Dirprwyedig** yn egluro bod Llywodraeth y DU yn credu bod y darpariaethau cyfredol ar y weithdrefn ar gyfer Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr wedi dyddio, ac y byddent yn fwy effeithiol pe baent wedi'u nodi mewn is-ddeddfwriaeth iddi fod yn haws i gadw cynlluniau'n gyfredol.

Mae **Llywodraeth y DU wedi nodi** bod mwy na thri chwarter yr ymatebwyr i'w ymgynghoriad ar y newidiadau i broses y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn cefnogi'r cynigion, gyda chefnogaeth ar draws pob sector.

Cefndir

Mae cwmni dŵr yn gyfrifol am reoli'r cyflenwad dŵr cyhoeddus yn ei ardal. Fel rhan o hyn, bob pum mlynedd, mae dyletswydd statudol ar bob cwmni dŵr i baratoi Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr sy'n nodi sut y bydd y cwmni'n ateb y galw am ddŵr dros y cyfnod o 25 mlynedd nesaf, gan ystyried ffactorau fel cynnydd yn y boblogaeth, tai newydd, a newidiadau mewn patrymau tywydd oherwydd newid yn yr hinsawdd. Cymeradwyir y cynlluniau gan Weinidogion Cymru (ar

gyfer cwmnïau dŵr sy'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru) a'r Ysgrifennydd Gwladol (os yw'r cwmnïau dŵr yn bennaf neu'n gyfan gwbl yn Lloegr).

Mae **papur briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin ar y Bil** yn datgan bod **Asiantaeth yr Amgylchedd wedi dweud** y gwyddys bod adnoddau dŵr yng Nghymru a Lloegr o dan bwysau, yn enwedig yn Ne Ddwyrain Lloegr. Mae'r briff yn mynd ymlaen i nodi:

While some areas of England are water stressed, facing risk of drought, other parts of England have surplus water. The National Infrastructure Commission report **Preparing for a drier future** (April 2018) highlighted that water company Water Resources Management Plan showed 'little join-up' between companies despite established regional coordination groups. In a **letter in August 2018** the [UK] Government and water industry regulators (Environment Agency, Drinking Water Inspectorate and Ofwat) called on water companies to take a more regional cooperative approach to water resource planning that 'transcends company boundaries'.

5.2. Cynlluniau rheoli draeniad a charthffosiaeth

Byddai **cymal 76 yn ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i bob cwmni carthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr baratoi a chyhoeddi cynllun rheoli draeniad a charthffosiaeth.**

Diffinnir cynllun rheoli draeniad a charthffosiaeth yn y cymal fel cynllun yn manylu sut y bydd y cwmni carthffosiaeth yn rheoli ac yn datblygu ei system ddraenio a charthffosiaeth er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau o dan Ran 4 o'r *Deddf y Diwydiant Dŵr 1991*. Mae Rhan 4 yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, y ddyletswydd i gwmnïau carthffosiaeth ddarparu systemau carthffosiaeth cyhoeddus a sicrhau eu bod yn cael eu draenio'n effeithiol.

Mae **cymal 76** yn mewnosod pum adran newydd yn *Neddf y Diwydiant Dŵr 1991* (Adrannau 94A-E newydd). Mae'r adrannau newydd yn cynnwys darpariaethau gan gynnwys:

- Gofyniad bod cwmnïau carthffosiaeth yn asesu eu cynlluniau yn flynyddol;
- Gofyniad bod yn rhaid adolygu cynlluniau o leiaf bob pum mlynedd (neu'n gynharach mewn rhai amgylchiadau); a
- Pwerau i Weinidogion Cymru yng Nghymru (neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr) wneud cyfarwyddydau ynghylch ffurf a chynnwys y cynlluniau a gwneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi

cynlluniau (ystyr 'Gweinidog' yw'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru fel sy'n briodol) .

Byddai'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Mae **crynodeb o ymatebion Llywodraeth y DU** i'r ymgynghoriad yn nodi bod dros hanner yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion ar draws sectorau. Nododd fod y diwydiant dŵr yn cefnogi'r cynigion ond yn teimlo bod costau datblygu'r cynlluniau statudol wedi'u tanamcangyfrif.

Cefndir

Mae gan gwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr gyfrifoldebau cyfreithiol o dan Ran 4 o *Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991*, i wneud yn siŵr bod dŵr gwastraff a charthffosiaeth yn cael eu draenio mewn modd effeithiol. Fodd bynnag, nid oes dyletswydd statudol i baratoi cynlluniau tymor hir ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a draenio.

Mae draenio dŵr wyneb yn effeithiol yn rhan bwysig o reoli'r risg o lifogydd dŵr wyneb. At hynny, gall gorlwytho'r rhwydwaith carthffosiaeth achos lle bo'r rhwydwaith yn methu arwain at effeithiau amgylcheddol sylweddol fel carthffosiaeth yn gorlifo i afonydd neu garthffosiaeth yn gorlifo mewn eiddo.

Roedd ymgynghoriad Llywodraeth y DU yn nodi cynigion i'w gwneud yn ofynnol datblygu cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff ar sail statudol. Roedd y ddogfen ymgynghori yn esbonio y byddai cael gofyniad statudol yn galluogi datblygu cynlluniau cyson ac isafswm safonol diffiniedig y gellir ei orfodi. Nododd y byddai hefyd yn gwella cydweithrediad rhwng cwmnïau dŵr a rhanddeiliaid eraill (megis awdurdodau lleol) sy'n berchen ar asedau sy'n draenio i'r rhwydwaith dŵr.

5.3. Rheoleiddio cwmnïau dŵr a charthffosiaeth

Mae **cymal 77** yn cryfhau **pwerau casglu gwybodaeth** Ofwat i gefnogi ei swyddogaeth i sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol ag amodau eu trwydded. Byddai'n diwygio *Deddf Diwydiant Dŵr 1991* gan **roi pŵer i Ofwat gyflwyno hysbysiad i gwmni dŵr neu garthffosiaeth yn ei gwneud yn ofynnol iddo gynhyrchu, o fewn amser penodol, ddogfennau neu wybodaeth benodol** (fel y nodir yn yr hysbysiad). Gallai Ofwat gychwyn ar gamau gorfodi os na chydymffurfir â hysbysiad.

Nododd ymgynghoriad Llywodraeth y DU fod y rhew a'r dadmer yn sgil y tywydd

oer eithafol ym mis Mawrth 2018 yn dangos yr angen am y ddarpariaeth hon. Roedd y ddogfen ymgynghori yn nodi, er bod Ofwat wedi gwneud ceisiadau anffurfiol am wybodaeth i asesu'r sefyllfa, nid oedd ganddo bwerau penodol i orfodi dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth, a oedd yn amharu ar allu Ofwat i gael ymatebion cynhwysfawr neu brydlon.

Yn ôl **crynodeb Llywodraeth y DU o'r ymatebion** i'r ymgynghoriad, yn gyffredinol, roedd cefnogaeth eang ar draws pob sector i gryfhau pwerau casglu gwybodaeth Ofwat.

Mae **cymal 79** yn diwygio *Deddf Diwydiant Dŵr 1991* i alluogi anfon dogfennau a gyflwynir o dan y Ddeddf trwy e-bost. Ar hyn o bryd mae'n rhaid anfon dogfennau a gyhoeddir o dan y Ddeddf ar ffurf galed.

Cefndir

Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr yn fonopolïau rhanbarthol, gyda rhwydweithiau pibellau a chyflenwadau dŵr pwrpasol ym mhob ardal cwmni dŵr. Mae hyn yn golygu na all y rhan fwyaf o bobl ddewis na newid eu cyflenwr, ac mae'r gystadleuaeth yn gyfyngedig. O ganlyniad, mae angen rheoleiddio'r diwydiant yn economaidd er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael gwerth am arian. Ofwat (neu'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yw'r rheoleiddiwr economaidd ar gyfer y diwydiant. Mae *Deddf Diwydiant Dŵr 1991* yn nodi pwerau statudol Ofwat a'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer y diwydiant.

Mae pob cwmni dŵr wedi eu penodi fel ymgwymerwr dŵr (neu ymgwymerwr carthffosiaeth fel sy'n berthnasol), sy'n ddarostyngedig i amodau y mae'n rhaid i'r cwmnïau gydymffurfio â nhw. Cyfeirir at hyn hefyd fel trwydded. Mae Ofwat yn gyfrifol am orfodi amodau'r drwydded. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth gan gynnwys y trwyddedau eu hunain ar **węfaņ.trwyddedęđau Ofwat.**

Roedd ymgynghoriad Llywodraeth y DU yn cynnwys tri chynnig ar gyfer moderneiddio pwerau rheoleiddio Ofwat ac fe'u cyflwynir yn y Bil hwn. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw rhoi pwerau mwy hyblyg i Ofwat i addasu amodau trwydded cwmnïau dŵr, ond mae hyn yn gymwys i Loegr yn unig (**cymal 78**).

Am gefndir pellach i'r ddadl ar lefel y DU, ac i gael manylion am **gymal 78**, gweler **papur briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin ar y Bil.**

5.4. Ansawdd Dŵr

Mae **cymal 81** yn darparu **pŵer gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio neu addasu deddfwriaeth benodol ar ansawdd dŵr** i:

- **Wneud darpariaeth ar gyfer y sylweddau gael eu hystyried wrth asesu statws cemegol dŵr wyneb neu ddŵr daear.** Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi y byddai hyn yn caniatáu naill ai ychwanegu sylwedd cwbl newydd neu dynnu sylwedd sy'n bodoli eisoes; a
- **Nodi safonau ar gyfer y sylweddau hynny neu mewn perthynas â statws cemegol dŵr wyneb neu ddŵr daear.** Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi y byddai hyn yn caniatáu i'r safon ansawdd amgylcheddol gael ei gosod ar gyfer sylwedd newydd neu i safon bresennol gael ei haddasu.

Byddai'r rheoliadau o dan y cymal hwn yn cael eu gwneud gan y weithdrefn negyddol.

Ni allai'r Ysgrifennydd Gwladol ond gwneud rheoliadau o dan **gymal 81** mewn perthynas â Chymru:

- Lle nad oes gan Weinidogion Cymru y cymhwysedd gweithredol i wneud rheoliadau o dan **gymal 82** (hynny yw, lle bo arfer y pŵer y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (gweler **cymal 82(5)**); neu
- Gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru os ydynt yn cynnwys darpariaeth y gellid ei chynnwys mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan eu pwerau eu hunain a nodir yng **ngghymal 82** (gweler **cymal 81(4)**).

Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, disgrifir y rhain fel pwerau 'cydredol plws'.

Mae **cymal 82** yn darparu **pŵer i Weinidogion Cymru** wneud rheoliadau **mewn perthynas â Chymru**, y gellir ei gymharu'n fras â'r pŵer yng nghymal 81. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â chyrff penodol, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, cyn gwneud rheoliadau o dan y ddarpariaeth hon. Ni all rheoliadau o dan y ddarpariaeth hon ond gwneud darpariaeth ar gyfer materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Byddai'r rheoliadau o dan y cymal hwn yn cael eu gwneud gan y weithdrefn negyddol.

Mae **cymal 85** yn cynnwys diffiniadau a ddefnyddir yn y cymalau ar ansawdd dŵr.

Cefndir

Mae safonau ansawdd dŵr yn deillio i raddau helaeth o **Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE (2006/60/EC)** ac mae wedi'i ymgorffori yn neddfwriaeth ddomestig yn y DU. Mae yna hefyd Gyfarwyddebau'r UE sy'n fwy penodol gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â dŵr ymolchi, dŵr yfed a nitradau.

Nod cyffredinol Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE yw i Aelod-wladwriaethau'r UE gyflawni statws 'da' ar gyfer pob corff dŵr erbyn terfynau amser penodol. Mae Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE yn gosod safonau ecolegol, cemegol a meintiol penodol ar gyfer asesu dŵr wyneb a dŵr ddaear ym mhob Aelod-wladwriaeth.

Caiff y Gyfarwyddeb ei rhoi ar waith gam wrth gam, fesul basn afon, yn hytrach nag ar draws ffiniau cenedlaethol neu wleidyddol, drwy Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Mae tair ardal basn afonydd a nodwyd yng Nghymru - Gorllewin Cymru, Hafren a Dyfrdwy. Mae ardaloedd Hafren a Dyfrdwy yn croesi'r ffin â Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ardaloedd basnau afonydd sy'n llifo'n gyfan gwbl yng Nghymru (dosbarth Gorllewin Cymru) ac mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gyfrifol ar y cyd am ardaloedd basnau afonydd sy'n rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain datblygiad Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd Gorllewin Cymru a'r Ddyfrdwy ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn arwain datblygiad Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren.

Cynhelir adolygiadau o'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd bob chwe blynedd: Cynhaliwyd Cylch 1 rhwng 2009 a 2015 ac mae Cylch 2 yn cael ei gynnal rhwng 2015 a 2021. Mae dogfen Cwestiynau Cyffredin Cyfoeth Naturiol Cymru ar Ddosbarthiad Dros Dro Cylch 2 (2018) yn nodi bod 40% o gyrff dŵr Cymru wedi cyrraedd statws da neu well yn 2018, o'i gymharu â 36% yn 2015.

5.5. Prasio tir mewn ardaloedd draenio mewnol

Mae **cymal 87** yn diwygio adran 83 o *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*, ac mae'r Ddeddf honno'n diwygio *Deddf Draenio Tir 1991*, i ddarparu **pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer gwerth 'tir arall' mewn ardal ddraenio fewnol yng Nghymru, i'w phennu yn unol â rheoliadau.**

Mae'n rhaid i reoliadau o dan yr adran hon ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.

Mae **cymal 88** yn diwygio *Deddf Draenio Tir 1991* i ddarparu **pŵer i Weinidogion**

Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer gwerth blynyddol pob eiddo y codir tâl amdano (tir ac adeiladau amaethyddol) mewn ardal ddraenio fewnol yng Nghymru, i'w phennu gan fwrdd draenio yr ardal yn unol â'r rheoliadau.

Mae rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol.

Mae **cymal 89** yn mewnosod adrannau 37A i 37C newydd yn y *Deddf Draenio Tir 1991* i **lywodraethu'r broses datgelu gwybodaeth refeniw a thollau gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio i amrywiol awdurdodau cymwys mewn perthynas â chyfraddau draenio ac ardollau arbennig.**

Mae dibenion cymwys yn galluogi cyflawni swyddogaethau statudol sy'n ymwneud â chyfraddau draenio ac ardollau arbennig. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi mai'r wybodaeth y rhagwelir y bydd ei hangen ar bobl gymwys yw'r rhestr brisio treth gyngor a'r rhestr ardrethu annomestig, y mae'r ddau ohonyn nhw'n cael eu llunio a'u cynnal gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac nad ydyn nhw ar gael i'r cyhoedd fel arall.

Y personau cymwys yw:

- Byrddau Draenio Mewnol, Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru, neu berson sydd wedi'i awdurdodi i arfer eu swyddogaethau, neu ddarparu gwasanaeth iddynt, mewn perthynas â chyfraddau draenio neu ardollau arbennig; ac
- Yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, neu berson a bennir mewn rheoliadau a wneir ganddynt.

Byddai adran 37B newydd yn llywodraethu'r broses o ddatgelu gwybodaeth o'r fath ac mae'r adran 37C newydd yn cynnwys darpariaethau ynghylch sut y byddai'r datgeliad yn gysylltiedig â deddfwriaeth bresennol fel *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000*.

Mae rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol a dim ond gyda chydysniad Comisiynwyr Cyllid a Thollau EM y gellir eu gwneud.

Cefndir

Mae yna **14 ardal ddraenio fewnol yng Nghymru** a **112 yn Lloegr**. Maen nhw'n cael eu rheoli gan wahanol gyrff yn y ddwy wlad.

Yn Lloegr, rheolir pob ardal ddraenio gan Fwrdd Draenio Mewnol. Mae Byrddau

Draenio Mewnol yn gyrff cyhoeddus annibynnol sy'n rheoli lefel y dŵr mewn ardaloedd daearyddol isel. Mae gan Fyrddau Draenio Mewnol bwerau caniatool a ddarperir gan *Ddeddf Draenio Tir 1991* i reoli lefelau dŵr yn eu priod ardaloedd draenio. Mae Byrddau Draenio Mewnol yn gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr cyffredin i leihau risg llifogydd i bobl ac eiddo a rheoli lefelau dŵr i ddiwallu anghenion lleol. Gall Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd wneud cytundebau cydweithio yn y sector cyhoeddus â Byrddau Draenio Mewnol i hwyluso Byrddau sy'n gwneud gwaith cynnal a chadw ar brif afonydd.

Mae Byrddau Draenio Mewnol yn cynnwys aelodau etholedig sy'n cynrychioli meddianwyr tir, ac eraill a enwebwyd gan awdurdodau lleol sy'n cynrychioli'r cyhoedd a grwpiau eraill â buddiant.

Yng Nghymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni rôl Byrddau Draenio Mewnol **wedi iddo ysgwyddo swyddogaethau, staff ac asedau'r Byrddau** a fodolai'n flaenorol yng Nghymru yn 2015.

Mae ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar **wella rheolaeth dŵr yn yr amgylchedd** (sy'n berthnasol yn bennaf i Loegr) yn nodi bod awydd i greu neu ehangu Byrddau Draenio Mewnol yn Lloegr, ond mae cyfyngiadau ynghylch prisiau tir yn cyfyngu ar y potensial i hyn ddigwydd.

Mae Byrddau Draenio Mewnol yn Lloegr (a Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru mewn perthynas â'i swyddogaethau mewn ardaloedd draenio) yn cael eu hariannu'n lleol yn bennaf trwy gyfraddau draenio a delir yn uniongyrchol gan dirfeddianwyr amaethyddol ac ardollau arbennig a roddir i awdurdodau ardal neu awdurdodau unedol. Er mwyn pennu ffi'r ardoll arbennig, mae *Deddf Draenio Tir 1991* yn cyfeirio at werthoedd ardrethol a ddangosir yn 'rhestr ardrethi annomestig awdurdod codi ffioedd ar 1 Ebrill 1990' a'r 'rhestr brisiau ar 31 Mawrth 1990'.

Mae Byrddau Draenio Mewnol/Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i gyfrifo gwerth yr holl 'dir arall' (trefol yn bennaf) yn eu hardal fel rhan o'u cyfrifiad blynyddol a wneir er mwyn dosrannu eu treuliau rhwng cyfraddau draenio ac ardollau arbennig. Mae *Deddf Draenio Tir 1991* hefyd yn nodi'r cyfrifiad dosrannu sy'n penderfynu faint sy'n cael ei dalu trwy gyfraddau draenio a faint trwy'r ardoll arbennig.

Mae dogfen ymgynghori Llywodraeth y DU yn nodi bod *Deddf Draenio Tir 1991* yn nodi sut y gall Byrddau Draenio Mewnol bennu eu taliadau, ond nid yw'n caniatáu defnyddio unrhyw restr brisiau arall, ac mae peth o'r data ar goll neu'n anghyflawn mewn rhai rhannau o Loegr. Daw i'r casgliad bod hyn yn cyfyngu ar ble y gellir

creu Byrddau Draenio Mewnol newydd neu ehangu rhai sy'n bodoli eisoes.

Felly mae'r ymgynghoriad yn cynnig y byddai is-ddeddfwriaeth yn gwneud darpariaeth amgen ar gyfer prisio tir nad yw'n amaethyddol, gan ddefnyddio'r data treth cyngor a chyfraddau busnes cyfredol. Byddai darpariaeth hefyd yn cael ei gwneud ar gyfer prisio tir amaethyddol 'er mwyn sicrhau bod cyfrif y dosraniad (hynny yw rhwng gwerthoedd tir amaethyddol a thir nad yw'n amaethyddol) yn gyfredol, ac i leihau'r risg o anghydbwysedd ar y naill ochr'.

Cyflwynir y cynigion hyn yn y Bil.

Mae mwy o fanylion am y pwnc hwn i'w gweld ym **mhapur briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin ar y Bil** (tudalennau 125 i 130).

Tystiolaeth rhanddeiliaid a chasgliadau'r Pwyllgor NHAMG

Roedd cefnogaeth eang gan rhanddeiliaid i'r darpariaethau sy'n ymwneud â chynlluniau a chynigion, yn enwedig i bwysigrwydd cynlluniau statudol. Mynegwyd rhai pryderon ynghylch ehangder y pwerau mewn perthynas ag ansawdd dŵr, a bod y pwerau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio rheoliadau sy'n gweithredu Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE. Arweiniodd hyn at bryderon pellach ynghylch y posibilrwydd i wanhau targedau a safonau, a dirywiad mewn safonau amgylcheddol o ganlyniad.

Gwnaeth y Pwyllgor ddau argymhelliad yn y maes hwn:

Argymhelliad 13: Dylai'r Gweinidog ailddatgan ei hymrwymiad y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â rhanddeiliaid ynglŷn â'r holl reoliadau arfaethedig a chyn gwneud cyfarwyddiadau sy'n codi o'r darpariaethau yn Rhan 5 o Fil y DU.

Argymhelliad 14: Dylai'r Gweinidog geisio diwygio Cymal 82 i ofyn am gyngor gwyddonol cyn arfer y pwerau a nodir yn y cymal hwnnw. Os nad oes modd cyflwyno diwygiad, dylai'r Gweinidog ymrwymo i sicrhau y dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gyngor gwyddonol cyn arfer y pwerau.

Yn ei hymateb i argymhelliad 13, ymrwymodd y Gweinidog i ymgynghori â rhanddeiliaid ar reoliadau sy'n deillio o Ran 5 o'r Bil. Derbyniodd y Gweinidog argymhelliad 14 'mewn egwyddor'. Dywedodd ei bod yn cynnig sicrwydd i'r Pwyllgor y bydd cyngor gwyddonol yn cael ei ystyried yn fanwl fel rhan o arferion gwaith Llywodraeth Cymru, a chan hynny nid oes angen cynnwys y gofyniad hwn mewn cyfraith.

6. Rhan 8 - Diwygio REACH

Mae Cymal 125 ac Atodlen 19 o'r Bil ar reoleiddio cemegolion yn gymwys i'r DU gyfan. Maent yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio Erthyglau rheoliad REACH. Mae Atodlen 19 hefyd yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio Rheoliadau Gorfodi REACH o dan y ddarpariaeth hon, i'r graddau y byddai arfer pŵer o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Byddai'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Mae datganiad polisi Llywodraeth y DU ar y Bil yn dweud y byddai'r pŵer yn sicrhau y gall yr Ysgrifennydd Gwladol gymryd camau i sicrhau 'newid didrafferth' i drefn gemegau'r DU yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.

Mae Rheoliad REACH (a deddfwriaeth ddiwygio'r DU) yn berthnasol ledled y DU, ond mae'n ymwneud â chymysgedd o faterion datganoledig a materion wedi'u cadw nôl.. Byddai paragraff 3 o Atodlen 19 yn darparu y byddai pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud unrhyw reoliadau o dan yr Atodlen yn ddarostyngedig i gydsyniad y gweinyddiaethau datganoledig, i'r graddau bod y rheoliad o fewn cymhwysedd datganoledig. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi, gan fod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (diogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl) bod angen cydsyniad arnynt.

Dywed papur y Gweinidog fod y pwerau yn y Bil yn angenrheidiol i greu cyfundrefn gemegau weithredol. Dywed, gyda'r newid o system sy'n cynnwys 28 Aelod-wladwriaeth i system ag un wladwriaeth sengl â phedair gwlad, mae rhai agweddau ar y drefn bresennol yn 'anymarferol neu'n rhy feichus ar fusnesau'. Aiff yn ei blaen i ddweud:

Heb y pwerau hyn, byddai'n rhaid i REACH weithredu yng nghydestun Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE. Yn y sefyllfa hon, gallem wynebu nifer o risgiau a phroblemau'n gyflym... Mae'n bosibl y bydd angen y pwerau hefyd i adlewyrchu newidiadau i gyfundrefn yr UE rydym am eu cynnal.

Cefndir

Mae Rheoliad REACH yn cyfeirio at reoliad yr UE ar gemegau, sef y **Rheoliad Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (Rhif 1907/2006)**. I grynhoi, mae REACH yn ei gwneud yn ofynnol i sylweddau cemegol sy'n cael eu cynhyrchu neu eu mewnfario i'r UE gael eu cofrestru gydag Asiantaeth Cemegau Ewrop, ynghyd â data diogelwch am y cemegyn, cyn eu rhoi ar y farchnad. Yna

mae'n darparu mecanwaith i osod cyfyngiadau ar weithgynhyrchu a defnyddio rhai cemegolion peryglus.

Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE ar 31 Ionawr 2020, mae REACH yn parhau i gael yr un effaith yn y DU tan ddiwedd y cyfnod pontio. Mae natur cyfundrefn rheoleiddio cemegol y DU ar ôl diwedd y cyfnod pontio yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau masnach rhwng y DU a'r UE. Yn absenoldeb unrhyw gytundeb â'r UE i'r gwrthwyneb, bydd REACH yn cael ei gadw mewn deddfwriaeth ddomestig ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, yn unol â *Deddf yr UE (Ymadael) 2018*. **Mae is-ddeddfwriaeth wedi'i phasio** a fyddai'n diwygio REACH yn y DU i wneud iddo weithio yng nghyd-destun y DU yn unig.

Byddai cyfundrefn REACH y DU yn sefydlu mai'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch fyddai'r Asiantaeth Gemegau yn y DU, ac mae Llywodraeth y DU wedi dweud bod cyfundrefn y DU yn efelychu system yr UE mor agos â phosibl.

Mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin wedi llunio **papur briffio ar Reoliad Brexit a Chemegau (REACH)**.

Mae **Rheoliadau Gorfodi REACH 2008** yn rheoliadau ar lefel y DU sy'n creu trefn ar gyfer gorfodi REACH yn y DU.

Tystiolaeth rhanddeiliaid a chasgliadau'r Pwyllgor NHAMG

Roedd y rhanddeiliaid yn croesawu cynnwys y darpariaethau mewn perthynas â rheoleiddio cemegion. Gwnaeth y Pwyllgor un argymhelliad mewn perthynas â REACH:

Argymhelliad 15: Dylai'r Gweinidog nodi pa fecanweithiau sydd ar waith neu a fydd yn angenrheidiol i sicrhau y gall REACH barhau mewn modd cyson ar draws pedair gwlad y DU yn y dyfodol.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad 15. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi galw ar Lywodraeth y DU i negodi parhad aelodaeth â'r Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd fel rhan fel rhan o gytundeb masnach cynhwysfawr. Dywedodd, os na cheir cytundeb o'r fath, bydd yn dal i fod yn bwysig bod yn gyson â'r cynnydd a wneir yn yr UE er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau a berir gan gemegion peryglus i iechyd dynol a'r amgylchedd, hyd yn oed os nad yw'r DU yn cyd-fynd â'r UE ar bob penderfyniad rheoleiddio. Amlinellodd fod y ddeddfwriaeth sy'n cefnogi dull gweithredu y DU o ran REACH ar waith eisoes i raddau helaeth, a hynny ar ffurf cyfraith yr UE a ddargedwir, a bod swyddogion wrthi'n gweithio i roi elfennau anneddfwriaethol fframwaith rheoleiddiol cyffredin ar gemegion ar waith.